



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

### **DEDDF HAPCHWARAE 2005**

### **DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU**

**Cymeradwywyd: 26ain Ionawr 2022**

**Dechrau: 28ain o Chwefror 2022**

**Yr Is-adran Drwyddedu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Tŷ Penallta  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach  
CF82 7PG**

**E-bost: [trwyddedu@caerffili.gov.uk](mailto:trwyddedu@caerffili.gov.uk)**

**Gellir cael copïau ychwanegol  
o'r cyfeiriad uchod neu o'r wefan:  
<http://www.caerffili.gov.uk>**

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae ar gael mewn  
ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.**

**This publication is available in English. It is available in other  
languages and formats on request.**

## MYNEGAI

Cyf.	CYNNWYS	Tudalen
1.	<b>DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU</b>	3
1.1	Cyflwyniad	3
1.2	Cydraddoldebau a Hawliau Dynol	3
1.3	Proffil Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	4
1.4	Diben	4
1.5	Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu	5
1.6	Ymgynghori	6
1.7	Awdurdodau Cyfrifol	6
1.8	Partïon â Diddordeb	6
1.9	Cyfnewid Gwybodaeth	7
1.10	Gorfodi	8
1.11	Integreiddio Strategaethau ac osgoi dyblygu	8
1.12	Partneriaethau a Chynllunio Integredig	9
2.	<b>TRWYDDEDAU SAFLE</b>	9
2.1	Egwyddorion Cyffredinol	9
2.2	Diffiniad Safle	10
2.3	Amgylchedd Trwydded Priodol	11
2.4	Safleoedd sy'n "barod ar gyfer hapchwarae"	12
2.5	Lleoliad	12
2.6	Cynllunio	13
2.7	Dyblygu â Chyfundrefnau Rheoleiddio eraill	13
2.8	Amcanion Trwyddedu	14
2.9	Rhannu Gwybodaeth yn Lleol	15
2.10	Amodau	15
2.11	Goruchwylwyr Drysau	17
2.12	Canolfannau Hapchwarae i Oedolion	17
2.13	Canolfannau Adloniant (Trwyddedig) i Deuluoedd	17
2.14	Casinos	18
2.15	Safleoedd Bingo	18
2.16	Safleoedd Betio	18
2.17	Traciau	19
2.18	Ffeiriau Teithiol	20
2.19	Datganiadau Dros Dro	21
3.	<b>HAWLENNI/HYSBYSIADAU DEFNYDD DROS DRO AC ACHLYSUROL</b>	22
3.1	Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Canolfannau Adloniant Didrwydded i Deuluoedd	22
3.2	Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Safleoedd Trwyddedig (Alcohol)	22
3.3	Hawlenni Hapchwarae am Wobrau	23
3.4	Hawlenni Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau Clybiau	24
3.5	Hysbysiadau Defnydd Dros Dro	25
3.6	Hysbysiadau Defnydd Achlysurol	26

<b>Cyf.</b>	<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
4.	<b>LOTERÏAU CYMDEITHASAU BACH</b>	26
5.	<b>GWNEUD PENDERFYNIADAU</b>	27
5.1	Gweinyddu, Cyflawni a Dirprwyo Swyddogaethau	27
5.2	Y Weithdrefn Apelio	27
5.3	Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau	27
5.4	Cwynion ynghylch Safleoedd Trwyddedig	27
5.5	Adolygiadau	28
6.	<b>AMODAU A CHODAU YMARFER TRWYDDEDU</b>	33-42
7.	<b>GWYBODAETH YCHWANEGOL</b>	43
 <b>Atodiadau</b>		
Atodiad 1	Ymgylgoreion y polisi	44
Atodiad 2	Awdurdodau cyfrifol	45-46
Atodiad 3	Cyfyngiadau mynediad i safleoedd hapchwarae	47-48
Atodiad 4	Crynodeb o'r Darpariaethau Peiriannau Adeilad	49-50
Atodiad 5	Rhestr Dirprwyo Swyddogaethau a Phenderfyniadau	51-52
Atodiad 6	Diffiniadau	53
Atodiad 7	Cronfa o Amodau Enghreifftiol Mandadol, Diofyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer Trwyddedau Safleoedd Gamblo	54-69

## **1. DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU**

### **1.1 Cyflwyniad**

Mae Deddf Hapchwarae 2005 yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi a chyhoeddi "Datganiad Polisi Trwyddedu" sy'n amlinellu'r egwyddorion y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymhwyso wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu pan fydd yn ymdrin â cheisiadau am Drwyddedau Safle, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Ceir diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y polisi hwn yn Atodiad 6.

Daw'r Datganiad Polisi hwn i rym ar 28ain o Chwefror 2022. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn diweddarau a chyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag y bo'r angen ond p'run bynnag o fewn 3 blynedd o ddyddiad y Polisi hwn (neu'r cyfryw gyfnod ag a bennir gan ddeddfwriaeth), a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnach a grwpiau preswylwyr fel y bo'n briodol, ac yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir bryd hynny.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori pan fo angen i sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol.

Wrth gynhyrchu'r Datganiad Polisi terfynol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Hapchwarae 2005, y Cyfarwyddyd i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, unrhyw godau ymarfer ac unrhyw ymatebion gan y rhai hynny yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â'r Datganiad Polisi.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod angen iddo wyro o'r Polisi hwn a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a lle y bo'r achos yn cyfiawnhau'r cyfryw benderfyniad er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r cynghorwyr cyfreithiol priodol ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, a bydd y rhesymau dros unrhyw wyriad o'r fath yn cael eu cofnodi'n llawn.

### **1.2 Cydraddoldebau a Hawliau Dynol**

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldebau 2010 fesurau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a brofir gan bobl anabl mewn rhai meysydd gan gynnwys cyflogaeth, a mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n defnyddio trwyddedu i fynd ar ôl y cyfryw faterion, heblaw pan ategir hynny gan ddeddfwriaeth ac arfer da cyffredin.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn yn gyfreithlon pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Y nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil (mewn cyflogaeth yn unig), beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd yr ymgeisydd yn ystyried y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio trwyddedu i fynd i'r afael â materion o'r fath, heblaw lle y mae deddfwriaeth yn ei gefnogi ac arfer da a dderbynnir.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru, a bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n sicrhau ei fod yn darparu ei wasanaethau yn unol â pholisïau presennol y Cyngor ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a chynhyrchu deunydd dwyieithog.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac mae'n ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i'r Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu, ac yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd yr ystyrir ceisiadau ac y cynhelir gweithgareddau gorfodi.

Wrth ganiatáu awdurdodiad, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd deiliad yr awdurdodiad hwnnw'n cymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i atal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da o fewn a rhwng staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr. Mae hyn ni waeth beth fo tarddiad ethnig unigolyn, ei ryw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir ei gyfiawnhau.

Mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn trin pob unigolyn a sefydliad sy'n adnewyddu neu'n gwneud cais newydd am drwydded gyda'r un parch wrth ohebu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny, ac yn ystod y broses cymeradwyo trwyddedu, a bydd yn gwneud hynny yn yr iaith neu'r fformat o'u dewis, yn unol ag Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod y polisi hwn yn bodloni'r gofynion statudol a, lle y ceir cyfyngiadau, eu bod yn bodloni'r darpariaethau yn ymwneud â chymesuredd a chydbwysu hawliau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

### **1.3 Proffil Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili'n ymestyn o Gaerdydd a'r M4 yn y de i Flaenau'r Cymoedd a Bannau Brycheiniog yn y gogledd, sy'n bellter o ryw 40 cilomedr ac yn ymestyn dros arwynebedd o 69,160 o erwau i gyd. Mae ganddi boblogaeth o fwy na **181731** ac mae'n lled-wledig ei natur. Mae saith prif ganol tref yn gwasanaethu'r ardal (Caerffili, Coed Duon, Bargod, Ystrad Mynach, Trecelyn, Rhisga a Rhymni), ynghyd â phentrefi niferus, a phob un ohonynt â'u cymeriad unigol eu hunain. Mae'r awdurdod yn cynnwys 33 ward.

Mae safleoedd hapchwarae wedi'u lleoli yn y saith prif dref yn bennaf, a cheir trac rasio milgwn yn Ystrad Mynach.

### **1.4 Diben**

Wrth gyflawni'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005, mae'n rhaid i'r Cyngor, sef yr Awdurdod Trwyddedu, ystyried yr amcanion trwyddedu canlynol:

- **Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, cael ei gysylltu â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i ategu trosedd;**
- **Sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored;**
- **Amddiffyn plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae.**

Dylid nodi bod y Comisiwn Hapchwarae wedi datgan: "Mae'r gofyniad mewn perthynas â phlant wedi'i fwriadu'n benodol i'w hamddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae".

Mae Adran 153 y Ddeddf yn mynnu bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau safle a hysbysiadau defnydd dros dro, yn ceisio caniatáu'r defnydd o safle ar gyfer hapchwarae i'r graddau ei fod:

- Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yn cyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu;
- Yn unol â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

## **1.5 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu**

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Fod yn gyfrifol am drwyddedu safleoedd lle y bwriedir cynnal gweithgareddau hapchwarae trwy roi Trwyddedau Safle;
- Rhoi Datganiadau Dros Dro;
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau hapchwarae penodol trwy roi Hawlenni Hapchwarae mewn Clybiau a/neu Hawlenni Peiriannau Clybiau;
- Rhoi Hawlenni Peiriannau mewn Clybiau i Glybiau Masnachol;
- Caniatáu hawlenni ar gyfer defnyddio rhai peiriannau hapchwarae betiau is mewn canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd;
- Derbyn hysbysiad gan safleoedd trwyddedig ar gyfer alcohol (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) ynghylch defnyddio dau beiriant hapchwarae neu lai;
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Safleoedd Trwyddedig i safleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed yn y safle trwyddedig, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, lle y ceir mwy na dau beiriant;
- Cofrestru loteriau cymdeithasau bach islaw trothwyon ariannol rhagnodedig;
- Rhoi Hawlenni Hapchwarae am Wobrau;

- Derbyn a chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysiadau Defnydd Achlysurol;
- Darparu manylion trwyddedau a roddwyd i'r Comisiwn Hapchwarae (gweler yr adran isod ar gyfnewid gwybodaeth);
- Cynnal cofrestrau o'r hawlenni a'r trwyddedau a roddir o dan y swyddogaethau hyn.

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud â thrwyddedu hapchwarae o bell, a reoleiddir gan y Comisiwn Hapchwarae trwy Drwyddedau Gweithredwr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai un ffordd yn unig o hyrwyddo'r broses o gyflawni'r tri amcan yw'r swyddogaeth drwyddedu, ac felly na ddylid ei hystyried yn fodd o ddatrys unrhyw broblemau, neu'r holl broblemau, sy'n gysylltiedig â hapchwarae yn y gymuned. Felly, bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Heddlu Gwent, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Fwy Diogel, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai hynny sy'n ymwneud ag amddiffyn plant i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y'u hamlinellir. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, o ran atal trosedd ac anhrefn.

## 1.6 Ymgynghori

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y Datganiad hwn cyn ei gwblhau'n derfynol a'i gyhoeddi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y polisi hwn yn unol â'r Ddeddf a Chyfarwyddyd y Comisiwn Hapchwarae (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Cyfarwyddyd). Ceir rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn atodiad 1, ac mae manylion ychwanegol, ynghyd â rhestr o'r sylwadau a wnaed ac ystyriaeth y Cyngor ohonynt, ar gael ar gais. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8fed Hydref 2021 a 8fed Tachwedd 2021.

Cymeradwywyd y polisi hwn mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 26ain Ionawr 2022 ac fe'i cyhoeddwyd ar 27ain Ionawr 2022, yn ogystal â bod ar gael yn [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

## 1.7 Awdurdodau Cyfrifol

Wrth gyflawni grymoedd y Cyngor o dan Adran 157(h) y Ddeddf, i ddynodi, yn ysgrifenedig, corff sy'n gymwys i gynghori'r Cyngor ynghylch amddiffyn plant rhag niwed, mae'r egwyddorion canlynol wedi'u cymhwyso:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu ardal gyfan y Cyngor;
- Yr angen i'r corff gynnwys uwch gynrychiolwyr a chynrychiolwyr cyfrifol cyrff cyhoeddus priodol yn ardal y fwrdeistref sirol, y mae'n brif ddyletswydd arnynt i fod yn gyfrifol am amddiffyn plant rhag niwed

Yn unol â'r Cyfarwyddyd, mae'r Cyngor hwn yn dynodi'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant (ar ran y Bwrdd Lleol Diogelu Plant) ar gyfer y diben hwn. Mae'r cyrff a amlygwyd o dan y Ddeddf sydd i'w trin fel Awdurdodau Cyfrifol wedi'u rhestru yn atodiad 2 y polisi hwn, ynghyd â'u manylion cyswllt.

## 1.8 Partïon â Diddordeb

Gall Partïon â Diddordeb gyflwyno sylwadau ynghylch ceisiadau am drwydded, neu wneud cais am adolygu trwydded bresennol yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu fel y'u manylir ym mharagraff 1.3 y Datganiad Polisi hwn.

Parti â Diddordeb yw rhywun:-

- (a) Sy'n byw'n ddigon agos i'r safle i'r gweithgareddau awdurdodedig fod yn debygol o effeithio arno;
- (b) Sydd â buddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt; neu

Sy'n cynrychioli unigolion yn y naill neu'r llall o'r ddau grŵp uchod.

Dyma'r egwyddorion y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i benderfynu a yw unigolyn yn Barti â Diddordeb:

A) Ni fydd y Cyngor hwn yn defnyddio rheolau caeth wrth benderfynu, a bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarperir yn y Cyfarwyddyd. Bydd hefyd yn ystyried y Cyfarwyddyd y dylid ystyried "buddiannau busnes" yn yr ystyr ehangaf posibl a chynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.

B) Gall Partïon â Diddordeb fod yn unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd, fel Cynghorwyr ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen tystiolaeth benodol o gael cais i gynrychioli unigolyn â diddordeb cyn belled ag y bo'r Cynghorydd/AS yn ddigon agos i'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio, yn byw'n ddigon agos iddynt neu'n eu cynrychioli. Yn yr un modd, bydd cynghorau plwyf sy'n debygol o gael eu heffeithio'n cael eu hystyried yn bartïon â diddordeb. Heblaw am y rhain, fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor gael tystiolaeth ysgrifenedig fel arfer bod unigolyn neu gorff (e.e. eiriolwr/perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos i'r safle i'r gweithgareddau awdurdodedig fod yn debygol o effeithio arno a/neu sydd â buddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt. Mae gohebiaeth gan un o'r unigolion hyn, yn gofyn am gael ei gynrychioli, yn ddigonol.

Pe gofynnid i Gynghorydd gynrychioli safbwyntiau unigolyn, ni chaniateid i'r Cynghorydd gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y cais hwnnw gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae, na bod â buddiant personol mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n ei atal rhag cymryd rhan mewn gwrandawriad. Os oes unrhyw amheuaeth, argymhellir bod y Cynghorydd yn cysylltu â Swyddog Monitro'r Cyngor.

## 1.9 Cyfnewid Gwybodaeth

Yr egwyddor y bydd y Cyngor yn ei dilyn mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo ef a'r Comisiwn Hapchwarae a'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 6 y Ddeddf yw y bydd yn gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Hapchwarae 2005, sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd Deddf Diogelu Data



1998 yn cael ei thorri. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ar gyfer Awdurdodau Lleol ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y grymoedd a ddarperir yn Neddf Hapchwarae 2005.

## 1.10 Gorfodi

Bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan Gyfarwyddyd y Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau lleol, y Cod Rheoleiddwyr a pholisi gorfodi'r cyngor, a bydd yn ceisio bod:

- Yn gymesur: dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd angen yn unig, a dylai camau unioni fod yn briodol i'r risg,
- Yn atebol: mae'n rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn ddarostyngedig i graffu cyhoeddus;
- Yn gyson: rhaid i reolau a safonau beidio â bod yn groes i'w gilydd a rhaid iddynt gael eu gweithredu'n deg;
- Yn dryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored a sicrhau bod rheoliadau'n ddealladwy ac yn rhwydd eu defnyddio; ac
- Yn dargedig: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgil-ffeithiau gymaint â phosibl.

Yn unol â'r Cyfarwyddyd, bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo'n bosibl.

Mae gan y Cyngor raglen arolygu seiliedig ar risg, sydd wedi'i seilio ar:

- Yr amcanion trwyddedu;
- Codau ymarfer perthnasol;
- Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yr egwyddorion a amlinellir yn y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn;
- Polisi gorfodi'r Cyngor.

Y brif rôl orfodi a chydymffurfio ar gyfer y Cyngor hwn o ran Deddf Hapchwarae 2005 yw sicrhau cydymffurfiaeth â Thrwyddedau Safle a chaniatadau eraill, y mae'n eu hawdurdodi. Y Comisiwn Hapchwarae yw'r corff gorfodi ar gyfer Trwyddedau Gweithredwr a Phersonol. Y Cyngor sy'n ymdrin â phryderon ynghylch gweithgynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae, ond dylid rhoi gwybod amdanynt i'r Comisiwn Hapchwarae.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ddogfen Gyfarwyddyd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol), sef 'Cynnal Pryniannau Prawf', wrth ystyried cynnal pryniannau prawf mewn safleoedd hapchwarae. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisiau a'i weithdrefnau ei hun ynglŷn â defnyddio prynwyr prawf dan oed.

Bydd y cyngor yn ystyried y ddogfen Gyfarwyddyd 'Dull i Bryniannau Prawf' wrth ystyried gwneud pryniannau prawf mewn adeiladau hapchwarae. Bydd y cyngor hefyd yn dilyn ei bolisiau a'i weithdrefnau ei hun ynglŷn â defnyddio

prynwyr prawf dan oed a Chod Ymarfer Swyddfa Rheoliadau Gwell ar Nwyddau â Chyfyngiad Oed.

### **1.11 Hawliau Sylfaenol**

O dan delerau'r Ddeddf, caiff unrhyw unigolyn/cwmni wneud cais am amrywiaeth o ganiatadau a disgwyl i'r ceisiadau hynny gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod unigol. Yn yr un modd, mae gan unrhyw Barti â Diddordeb neu Awdurdod Cyfrifol yr hawl i gyflwyno sylwadau perthnasol ynglŷn â chais neu geisio adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle y mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth iddynt wneud hynny.

Mae gan ymgeiswyr a'r rhai hynny sy'n cyflwyno sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Cyngor yr hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor.

### **1.12 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu**

Trwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i bolisiau lleol sy'n ymwneud ag atal trosedd, diwylliant, trafnidiaeth, cynllunio a thwristiaeth yn rhan o strategaeth integredig ar gyfer y Cyngor, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Mae'n bosibl na fydd llawer o'r strategaethau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond fe allent effeithio arnynt yn anuniongyrchol.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd y Cyngor yn osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo'n bosibl. Felly, ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar drwydded oni bai yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur â defnydd y safle ar gyfer hapchwarae, ac yn gyson â'r amcanion trwyddedu.

### **1.13 Strategaeth Gymunedol Datblygu Cynaliadwy**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio strategaeth gymunedol o fewn fframwaith Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU - "A better Quality of Life" a strategaethau rhanbarthol perthnasol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried effaith hir dymor ei benderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau ac ar y cyd, ac atal problemau parhaus megis tloidi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae strategaethau cymunedol yn ganolbwynt ar gyfer nodi materion a dyheadau lleol ar gynhwysiant cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, cyflogaeth a datblygu economaidd.

Mae partneriaethau strategol lleol, fel arfer yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, a chynrychiolwyr o sefydliadau addysg, busnes a'r sector gwirfoddol, yn gyfrifol am gyflawni amcanion a osodir yn lleol. Mae'r rhain wedi'u nodi yng Nghynllun Llesiant y Gaerffili a Garem a gellir eu gweld yma:

O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried effaith debygol cyflawni eu swyddogaethau ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal, a gwneud popeth o fewn eu gallu i atal hynny. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anhrefn gysylltiedig yn y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth pob cais, adnewyddiad ac amrywiad i amodau trwydded/hawlen arfaethedig.

## **2. TRWYDDEDAU SAFLE**

### **2.1 Egwyddorion Cyffredinol**

Mae Trwyddedau Safleoedd yn caniatáu darpariaeth cyfleusterau hapchwarae yn y canlynol:-

- Safleoedd Casino;
- Safleoedd Bingo;
- Safleoedd Betio;
- Canolfannau Chwarae i Oedolion;
- Canolfannau Adloniant i Deuluoedd.

Ac eithrio yn achos Traciau (lle efallai nad y meddiannwr yw'r unigolyn sy'n cynnig hapchwarae), cymeradwyir Trwyddedau Safle i rheiny sy'n meddu ar Drwydded Weithredu gan y Comisiwn Hapchwarae'n unig.

Mae Trwyddedau Safle'n ddarostyngedig i'r gofynion a amlinellir yn Neddf Hapchwarae 2005 a rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol, a fanylir mewn rheoliadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae awdurdodau trwyddedu'n gallu eithrio amodau diofyn yn ogystal â gosod amodau eraill lle yr ystyrir eu bod yn briodol.

Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â Thrwyddedau Safle, mae'r Cyngor yn ymwybodol y dylai geisio caniatáu'r defnydd o safleoedd ar gyfer hapchwarae i'r graddau ag y mae'n credu bod hynny:-

- Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yn cyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu; ac
- Yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

Caiff y Cyngor hwn hefyd ystyried mesurau i fodloni'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft:

- Cynlluniau prawf oedran
- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion

- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunanwahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.
- Mesurau/hyfforddiant i staff ar sut i ymdrin â phlant ar y safle, er enghraifft triwantiaeth o ysgol a amheuir.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, ac fe'i bwriedir i roi enghraifft o fesurau yn unig.

Yn unol â'r Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol, derbynnir "nad yw gwrthwynebiadau moesol i hapchwarae'n rheswm dilys i wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle" ac nad yw galw heb ei fodloni'n faen prawf i'w ystyried gan yr awdurdod trwyddedu.

Gosododd yr Amodau a'r Cod Ymarfer Trwyddedu (LCCP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ac a ddaeth i rym ym mis Mai 2015, faich ychwanegol ar safleoedd i gwblhau asesiad risg (Cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol 10.1.11). Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r cod hwn wrth bwysu a mesur ceisiadau. Ymdrinnir â hyn yn fanwl ym mhwynt 6 ar dudalen 27.

## 2.2 Diffiniad "Safle":

Diffinnir safle yn y Ddeddf fel "unrhyw le". Mae Adran 152 y Ddeddf yn datgan na chaiff trwydded safle awdurdodi defnyddio safle ar gyfer mwy nag un math o weithgarwch, ac eithrio traciau. Gall traciau fod yn ddarostyngedig i brif drwyddedau a thrwyddedau atodol.

Gallai adeilad unigol fod yn ddarostyngedig i fwy nag un drwydded safle, cyn belled â'u bod yn berthnasol i rannau gwahanol o'r adeilad ac y gellir ystyried yn rhesymol bod y rhannau gwahanol o'r adeilad yn safleoedd gwahanol. Defnyddiwyd yr ymagwedd hon i ganiatáu i safleoedd mawr, aml-uned fel parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa gael trwyddedau safle ar wahân, pan fo mesurau diogelu priodol ar waith. Fodd bynnag, dylai awdurdodau

trwyddedu roi sylw arbennig i faterion yn ymwneud ag is-raniadau adeilad neu lain unigol, a dylent sicrhau y cydymffurfir ag amodau gorfodol yn ymwneud â mynediad rhwng safleoedd.

Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan: "Yn y rhan fwyaf o achosion, y disgwyliad yw y bydd adeilad/llain unigol yn destun cais am drwydded. Ond, nid yw hynny'n golygu na all llain adeilad unigol fod yn destun trwydded safle ar wahân, e.e. yr islawr a'r llawr gwaelod, os ydynt wedi'u cyflunio'n dderbyniol. Yr amgylchiadau fydd yn pennu p'un a ellir ystyried yn briodol bod rhannau gwahanol o adeilad yn safleoedd ar wahân. Bydd lleoliad y safle'n ystyriaeth bwysig yn amlwg, ac mae addasrwydd y rhaniad yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu.

Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn o'r farn y gellir ystyried yn briodol bod rhannau o adeilad sydd wedi'u gwahanu mewn modd artiffisial neu dros dro, er enghraifft, gan raffau neu baredau symudol, yn safleoedd gwahanol."

Mae'r Cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r Cyfarwyddyd sy'n datgan y dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ofalus iawn wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a'r rhai hynny sy'n ymwneud â rhan ar wahân o adeilad a ddefnyddir ar gyfer dibenion eraill (nad ydynt yn ymwneud â hapchwarae). Yn arbennig, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol –

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu'n ceisio amddiffyn plant rhag cael eu niweidio trwy hapchwarae. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn hapchwarae, ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos i hapchwarae. Felly, dylai safleoedd gael eu cyflunio mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn hapchwarae, nad ydynt yn cael mynediad at hapchwarae'n ddamweiniol ac nad ydynt yn arsylwi hapchwarae'n fanwl lle y cânt eu gwahardd rhag cymryd rhan;
- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd rhannau o adeilad sy'n destun un drwydded safle neu fwy fod ar wahân ac yn amlwg, er mwyn sicrhau bod y gwahaniad rhwng safleoedd gwahanol yn cael ei gynnal ac nad yw pobl yn "crwydro" i mewn i ardal hapchwarae. Yn y cyd-destun hwn, fel arfer, fe ddylai fod yn bosibl cael mynediad i'r safle heb fynd trwy safle trwyddedig arall neu safle arall sydd â hawlen;
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgarwch a enwir ar y drwydded safle.

Mae'r Cyfarwyddyd hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a allai gynnwys:

- A oes gan y safle gofrestrriad ar wahân ar gyfer ardrethi busnes?
- A yw'r safle sy'n gyfagos i'r safle ym mherchenogaeth yr un unigolyn neu rywun arall?
- A ellir cyrraedd pob un o'r safleoedd o'r stryd neu dramwyfa gyhoeddus?
- A ellir cyrraedd y safle o unrhyw safle hapchwarae arall yn unig?

## 2.3 Amgylchedd Trwydded Priodol

Mae'r Cyfarwyddyd a'r Amodau a Chodau Ymarfer Trwyddedu (LCCP) yn nodi materion y dylai'r Cyngor eu hystyried wrth bwysu a mesur ceisiadau am drwyddedau safle.

Mae'r Cyfarwyddyd, yr LCCP a'r cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn rhagnodi cyfyngiadau ar weithgareddau hapchwarae mewn safleoedd, a adwaenwyd gynt fel prif weithgaredd hapchwarae. Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais yn seiliedig ar y darpariaethau yn y cyfarwyddyd a'r codau hyn.

Lle y darperir cyfleusterau hapchwarae mewn safle fel gweithgaredd atodol i brif ddiben y safle, e.e. ardaloedd gwasanaethau traffordd a chanolfannau siopa, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal hapchwarae fod wedi'i diffinio'n eglur er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn dewis mynd i mewn i'r safle hapchwarae, a bod y safle'n cael ei oruchwyllo'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau hyn ac unrhyw ffactorau eraill perthnasol wrth wneud ei benderfyniad, gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Mae crynodeb o'r Cyfarwyddyd ynglŷn â darpariaethau mynediad perthnasol ar gyfer pob math o safle wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

## 2.4 Safleoedd sy'n "barod ar gyfer hapchwarae"

Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan y dylai trwydded i ddefnyddio safle ar gyfer hapchwarae gael ei rhoi dim ond mewn perthynas â safle y gall yr awdurdod trwyddedu fod yn fodlon y bydd yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer hapchwarae, yn y dyfodol rhesymol agos, yn gyson â graddau'r adeilad neu'r newidiadau sy'n ofynnol cyn i'r safle fod yn addas i'w ddefnyddio.

Os nad yw gwaith adeiladu safle wedi'i gwblhau eto, neu os oes angen ei newid, neu os nad oes gan yr ymgeisydd yr hawl i'w feddiannu eto, dylid gwneud cais am ddatganiad dros dro yn lle hynny.

Wrth benderfynu p'un a ellir caniatáu trwydded safle pan fo gwaith adeiladu neu newid heb ei gwblhau mewn safle, bydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau ar sail eu teilyngdod, gan ddefnyddio proses ystyried dau gam:

- Yn gyntaf, p'un a ddylid caniatáu i'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer hapchwarae;
- Yn ail, p'un a ellir gosod amodau priodol i ddarparu ar gyfer y sefyllfa nad yw'r safle eto yn y cyflwr y dylai fod ynddo cyn i hapchwarae ddigwydd.

Dylai ymgeiswyr nodi bod gan yr awdurdod hwn yr hawl i benderfynu ei bod yn briodol caniatáu trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ond nad oes rhaid iddo ganiatáu'r cyfryw drwydded.

Mae enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau pryd y gellid caniatáu'r cyfryw drwydded ar gael yn y Cyfarwyddyd.

## 2.5 Lleoliad

Mae'r Cyngor yn ymwybodol na ellir ystyried materion yn ymwneud â galw o ran lleoliad safleoedd, ond bod ystyriaethau yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu'n berthnasol i'w broses benderfynu. Yn unol â'r Cyfarwyddyd, bydd y Cyngor yn rhoi sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae, yn ogystal â materion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn. Pe benderfynir ar unrhyw bolisi penodol mewn perthynas ag ardaloedd lle na ddylid lleoli safleoedd hapchwarae, bydd y Datganiad hwn yn cael ei ddiweddarau. Dylid nodi nad yw unrhyw bolisi o'r fath yn atal unrhyw gais rhag cael ei gyflwyno ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar bob cais ar sail ei deilyngdod, gyda'r baich ar yr ymgeisydd i ddangos sut y gellir goresgyn pryderon posibl.

## 2.6 Cynllunio\ Dyblygu gyda Chyfundrefnau Rheoleiddio eraill:

Mae'r Cyngor yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu gyda systemau statudol/rheoleiddio eraill lle bo modd, gan gynnwys cynllunio.

Mae Cyfarwyddyd y Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Trwyddedu'n datgan:

- Wrth benderfynu ar geisiadau, mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd i ystyried yr holl faterion perthnasol a pheidio ag ystyried unrhyw faterion amherthnasol, h.y. y rhai hynny nad ydynt yn ymwneud â hapchwarae a'r amcanion trwyddedu. Un enghraifft o fater amherthnasol fyddai tebygolrwydd yr ymgeisydd o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer ei gynnig.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried materion amherthnasol. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r darn canlynol o'r Cyfarwyddyd:

- Wrth ymdrin â chais am drwydded safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni ddylai'r awdurdod trwyddedu ystyried pa un a oes gan yr adeiladau hynny'r ganiatadau cynllunio neu adeiladu angenrheidiol neu ba un a ydynt yn cydymffurfio â'r cyfryw ganiatadau. Dylid ymdrin â'r materion hynny o dan rymoedd rheoli cynllunio a rheoliadau adeiladu perthnasol, ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaethau ar gyfer trwydded safle. Mae Adran 210 y Ddeddf yn atal awdurdodau trwyddedu rhag ystyried pa mor debygol yw cynnig yr ymgeisydd o gael caniatâd cynllunio neu adeiladu wrth ystyried cais am drwydded safle. Yn yr un modd, nid yw caniatáu trwydded safle hapchwarae'n peryglu nac yn atal unrhyw gamau a allai fod yn briodol o dan y gyfraith yn ymwneud â chynllunio neu adeiladu.

## 2.7 Amcanion Trwyddedu

Mae'n rhaid i drwyddedau safle a ganiateir gyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried y Cyfarwyddyd ac yn datgan fel a ganlyn:

### 2.7.1 **Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, cael ei gysylltu â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i ategu trosedd:**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y Comisiwn Hapchwarae'n ymgymryd â rôl flaenllaw wrth atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell troseddu. Fodd bynnag, disgwylir i awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig safleoedd hapchwarae o ran yr amcan trwyddedu hwn. Felly, o ran ardaloedd lle y gwyddys bod llawer o drosedd cyfundrefnol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus pa un a yw'r lleoliad yn addas ar gyfer safle hapchwarae a pha un a allai amodau fel darparu goruchwylwyr drws fod yn briodol.

### 2.7.2 **Sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored:**

Bydd sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored yn derbyn sylw trwy drwyddedau gweithredu a phersonol a weinyddir gan y Comisiwn Hapchwarae. Mae gan y Cyngor hwn rôl i'w chyflawni o ran traciau, a esbonnir yn fanylach ym mhwynt 2.16 ar dudalen 22 yn y datganiad polisi hwn.

### 2.7.3 **Amddiffyn plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae:**

Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn hapchwarae (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion hapchwarae'n cael eu hanelu at blant nac yn arbennig o atyniadol iddynt). Felly, bydd y Cyngor yn ystyried, fel yr awgrymir yn y Cyfarwyddyd hwn, pa un a oes angen mesurau penodol mewn safleoedd penodol mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn. Gallai mesurau priodol gynnwys goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd, ac ati.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o Godau Ymarfer y Comisiwn Hapchwarae, o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â safleoedd penodol.

Nid yw'r Comisiwn Hapchwarae'n diffinio'r term "pobl agored i niwed", ond mae'n datgan "y bydd, at ddibenion rheoleiddio, yn tybio bod y grŵp hwn yn cynnwys

- pobl sy'n hapchwarae mwy nag y dymunant;
- pobl sy'n hapchwarae y tu hwnt i'w hincwm;
- pobl nad ydynt, o bosibl, yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys ynghylch hapchwarae o ganlyniad i nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau".

Bydd y Cyngor yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn ar sail pob cais unigol.

Mae'r Cyfarwyddyd yn amlinellu ystyriaethau y mae'n rhaid i weithredwr eu rhoi ar waith er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i safleoedd hapchwarae.



Mae'r Amodau a'r Codau Ymarfer Trwyddedu (LCCP) yn rhagnodi sut y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hapchwarae â chyfyngiad oedran, yn enwedig pan fo peiriannau hapchwarae wedi'u trwyddedu.

Yn arbennig, mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau;

- bod yr holl staff wedi'u hyfforddi,
- bod yr holl gwsmeriaid yn cael eu goruchwylio pan fyddant yn y safle hapchwarae,
- bod gweithdrefnau ar gyfer adnabod cwsmeriaid sydd mewn perygl o niwed cysylltiedig â hapchwarae ac hefyd lle i gyfeirio pobl am gefnogaeth (mae hyfforddiant ar gael o nifer o ffynonellau gan gynnwys Canolfan Cyngor ar Bopeth Casnewydd a Gambleaware).

Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob gweithredwr fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan godau'r LCCP ar gyfrifoldeb cymdeithasol i ymdrin â phob agwedd ar y cod, yn enwedig cofnodion hyfforddiant staff a chofnodion hunanwahardd.

Mae darpariaethau ychwanegol yn ymwneud â hunanwahardd a marchnata wedi'u cynnwys yn y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl amodau a chodau wrth bwysu a mesur ceisiadau neu ymgymryd â gweithgareddau gorfodi.

Gweler adran 6 y datganiad polisi hwn am ragor o fanylion ac ar ofynion y cyngor mewn perthynas â'r Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer.

Bydd y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Iechyd Cymru i gefnogi'r amcan trwyddedu er mwyn amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu hanafu neu eu ecsbloetio gan hapchwarae.

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i bob ymgeisydd a deiliad trwydded gwblhau'r gwiriadau angenrheidiol ar bob aelod o staff perthnasol i sicrhau eu haddasrwydd ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd y mae gan blant a phobl sy'n agored i niwed fynediad iddynt.

## **2.8 Rhannu Gwybodaeth yn Lleol e.e. Bet-Watch**

Mae'r Cyngor yn annog gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion yn ymwneud â hapchwaraewyr trafferthus a amlygir, a bydd yn eu cynorthwyo i wneud hynny. Byddai hyn yn rhoi cyfle i weithredwyr drafod materion gyda swyddogion trwyddedu.

## **2.9 Amodau**

Bydd unrhyw amodau a osodir ar drwyddedau'n gymesur ac:

- Yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster hapchwarae;

- Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r safle a'r math o drwydded y cyflwynwyd cais amdani;
- Yn gysylltiedig mewn modd teg a rhesymol â maint y safle a'r math o safle; ac
- Yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

Bydd penderfyniadau ar amodau unigol yn cael eu gwneud ar sail pob achos unigol, er bod nifer o fesurau ar gael i'r Cyngor ystyried eu defnyddio pe byddai angen canfyddedig, fel defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd i oedolion yn unig, ac ati. Gwneir sylwadau penodol ynglŷn â hyn o dan rai o'r mathau o drwyddedau isod. Bydd y Cyngor hefyd yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun ynghylch ffyrdd y gellir bodloni'r amcanion trwyddedu'n effeithiol. Mewn cydweithrediad ag amodau Gorfodol a bennir yn Neddf Hapchwarae (2005) (Amodau Gorfodol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) Rheoliadau 2007 (y rheoliadau), gallai'r amodau y mae'r Cyngor yn gorfodi ar drwydded gynnwys:-

#### Amodau diogelwch

- Isafswm o ddau aelod o staff wedi 10pm;
- Bydd gan y safle larwm dresbaswr a botwm panig;
- Gosodir monitor y tu mewn i'r safle uwchben y drws blaen sy'n dangos lluniau Teledu Cylch Cyfyng o gwsmeriaid yn dod i mewn i'r safle.

#### Amodau ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Bydd y deiliad trwydded yn datblygu ac yn cytuno i brotocol ar y cyd â'r Heddlu ynghylch adrodd am ddigwyddiadau, gan gynnwys y math o ddigwyddiad, ei lefel a'r dull cyfathrebu, er mwyn galluogi'r Heddlu i fonitro unrhyw faterion sy'n codi yn y safle neu mewn perthynas ag ef.
- Bydd y deiliad trwydded yn gosod a chynnal arwydd wrth y fynedfa sy'n datgan "dim ond diodydd a brynir ar y safle gellir eu hyfed ar y safle";
- Bydd y deiliad trwydded yn gweithredu polisi o wahardd unrhyw gwsmer sy'n cyflawni trosedd neu anrhefn yn y safle neu y tu allan iddo.

#### Rheoli pobl dan oed

- Bydd yn rhaid i gwsmeriaid dan 21 oed ddangos tystiolaeth o hunaniaeth;
- Ni chaiff peiriannau yn y Ganolfan Adloniant i Deuluoedd Ddi-drwydded eu gosod o fewn un metr o fynedfa'r Ganolfan Hapchwarae i Oedolion;
- Rhaid i gofnodion hyfforddi staff neu gopïau ohonynt fod ar gael i'w harchwilio ar y safle.

#### Rheoli amddiffyniad i chwaraewyr

- Ni fydd peiriant codi arian neu ATM ar y safle;
- Bydd deiliad y drwydded yn hyfforddi staff ar faterion penodol sy'n berthnasol i'r ardal leol a bydd yn cynnal hyfforddiant adnewyddu yn rheolaidd. Caiff cyfranogiad yn yr hyfforddiant ei gofnodi'n ffurfiol a chaiff cofnodion eu cyflwyno i'r Heddlu neu'r awdurdod trwyddedu ar gais;
- Caiff dogfennaeth GamCare amlwg ei harddangos yn y safle.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac fe'i bwriedir i roi enghraifft o'r fath o fesurau y gellir eu gorfodi'n unig, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau ar bob safle.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried mesurau penodol a allai fod yn ofynnol ar gyfer adeiladau sy'n destun trwyddedau safle lluosog. Gallai'r cyfryw fesurau gynnwys goruchwylio mynedfeydd; gwahanu hapchwarae oddi wrth ardaloedd lle na cheir hapchwarae a fynychir gan blant; a goruchwylio peiriannau hapchwarae mewn safleoedd nad ydynt yn benodol ar gyfer hapchwarae i oedolion er mwyn bodloni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd.

Pan fydd peiriannau categori C neu uwch (gweler Atodiad 4 i gael gwybodaeth am gategoreiddio peiriannau) ar gael mewn safleoedd y derbynnir plant iddynt, bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau:

- Bod yr holl beiriannau o'r fath wedi'u lleoli mewn rhan o'r safle sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol i atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig;
- Bod oedolion yn unig yn cael mynd i mewn i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli;
- Bod mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli yn cael ei oruchwylio;
- Bod yr ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli yn cael ei threfnu mewn modd sy'n sicrhau bod y staff neu'r deiliad drwydded yn gallu ei harsylwi; a
- Bod hysbysiadau'n cael eu harddangos mewn man amlwg wrth fynedfa unrhyw ardaloedd o'r fath, a'r tu mewn iddynt, yn nodi na chaiff pobl iau na 18 oed fynd i mewn i'r ardal.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd, gan gynnwys adeiladau sy'n destun trwyddedau safle lluosog.

Bydd y Cyngor hwn yn ystyried, yn unol â'r Cyfarwyddyd, yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle'n wahanol i'w gilydd a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd hapchwarae na chânt fynd i mewn iddynt.

Nodir na all y Cyngor osod yr amodau canlynol ar drwyddedau safle:

- Unrhyw amod ar y drwydded safle sy'n ei gwneud hi'n amhosibl cydymffurfio ag amodau trwydded weithredu;
- Amodau sy'n ymwneud â chategorïau, niferoedd, neu ddull gweithredu peiriannau hapchwarae;
- Amodau sy'n darparu bod aelodaeth o glwb neu gorff yn ofynnol (mae Deddf Hapchwarae 2005 yn dileu'r gofyniad aelodaeth yn benodol ar gyfer clybiau casino a bingo ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei adfer); ac
- Amodau sy'n ymwneud â betiau, ffioedd, ennill neu wobrau.

Mae amodau gorfodol a diofyn perthnasol wedi'u cynnwys yn Atodiad 7 er gwybodaeth, yn ogystal â Chronfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o Amodau Enghreifftiol ar gyfer trwyddedau safleoedd gamblo.

## **2.10 Goruchwylwyr Drws**

Yn ôl y cyfarwyddyd i awdurdodau trwyddedu, os ydynt yn pryderu y gallai safle ddenu anhrefn, neu y gallai pobl geisio cael mynediad iddo heb awdurdod (e.e. plant a phobl ifanc), cânt fynnu bod y mynedfeydd i'r safle'n cael eu rheoli gan oruchwyliwr drws, ac mae ganddynt yr hawl i osod amod ar drwydded safle i'r perwyl hwn.

Lle y pennwyd bod goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau'n briodol ar gyfer achosion penodol, bydd angen ystyried pa un a ddylai'r cyfryw warchodwyr drws fod wedi'u trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) ai peidio. Ni chymerir yn ganiataol y bydd angen iddynt fod â thrwydded SIA oherwydd bod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd yn amrywio.

### **2.11 Canolfannau Hapchwarae i Oedolion**

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae, a disgwylir i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor y bydd mesurau digonol ar waith i sicrhau nad yw pobl iau na 18 oed yn cael mynediad i'r safle.

Lle y darperir cyfleusterau hapchwarae mewn safle fel gweithgaredd atodol i brif ddiben y safle; e.e. ardaloedd gwasanaeth ar y draffordd a chanolfannau siopa, bydd y cyngor yn disgwyl i'r ardal hapchwarae gael ei diffinio'n eglur er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn dewis mynd i mewn i'r safle hapchwarae, a bod y safle'n cael ei oruchwyllo'n ddigonol bob amser.

### **2.12 Canolfannau Adloniant (Trwyddedig) i Deuluoedd**

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae, a disgwylir i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor, er enghraifft, y bydd mesurau digonol ar waith i sicrhau nad yw pobl iau na 18 oed yn cael mynediad i ardaloedd peiriannau hapchwarae ar gyfer oedolion yn unig. Rhaid i'r ymgeisydd am Ganolfan Adloniant Teuluol ddarparu tystiolaeth bod gwiriad cofnodion troseddol addas gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gynnal ar bob aelod o staff yn ei gyflogaeth.

Caniateir i blant a phobl ifanc gael mynediad i Ganolfannau Adloniant i Deuluoedd ond ni chaniateir iddynt chwarae ar beiriannau Categori C. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd sicrhau y bydd mesurau digonol ar waith i atal pobl dan 18 oed rhag cael mynediad i'r ardal chwarae i oedolion yn unig. Bydd y Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr fodloni'r amcanion trwyddedu a chydymffurfio â'r holl amodau gorfodol a Chodau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae.

Ceir gofyniad bod yn rhaid gwahanu mathau o beiriannau er mwyn sicrhau nad oes gan blant fynediad i beiriannau Categori C. Rhaid i bob peiriant Categori C gael ei leoli mewn ardal ar y safle sydd wedi'i gwahanu gan rwystr ffisegol a fydd yn atal mynediad ac eithrio drwy fynedfa ddynodedig. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau:

- Y caniateir oedolion yn unig i'r ardal lle lleolir y peiriannau;
- Bod mynediad i'r ardal lle lleolir y peiriannau'n cael ei oruchwyllo;
- Mae'r ardal lle lleolir y peiriannau wedi'i threfnu fel y gall aelod o staff y gweithredwr neu ddeiliaid y drwydded ei harsylwi; ac

- Y caiff hysbysiadau sy'n dynodi na chaniateir mynediad i'r ardal i bobl dan 18 oed yn cael eu harddangos yn y fynedfa i unrhyw ardaloedd o'r fath ac y tu mewn iddynt.

Bydd y Cyngor yn cyfeirio at wefan y Comisiwn o ran amodau sy'n berthnasol i drwyddedau gweithredu (a roddir gan y Comisiwn Hapchwarae) sy'n ymdrin â'r ffordd y dylai'r ardal sy'n cynnwys y peiriannau categori C gael ei hamlinellu. Bydd y Cyngor hwn hefyd yn ystyried unrhyw amodau gorfodol neu ddiodyn fel y bo'n briodol.

## 2.13 Casinos

Nid yw'r Cyngor wedi derbyn cynnig "dim casino" o dan Adran 166 Deddf Hapchwarae 2005, ond mae'n ymwybodol bod ganddo'r grym i wneud hynny. Pe byddai'r Cyngor yn penderfynu derbyn cynnig o'r fath yn y dyfodol, byddai'n diweddarau'r Datganiad Polisi hwn gyda manylion y cynnig hwnnw. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn.

### **Ystyriaethau/Amodau Trwydded:**

Pe byddai angen, byddai'r Cyngor yn gosod amodau ar drwyddedau safle casino yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Cyfarwyddyd, gan ystyried yr amodau gorfodol ac Amodau a Chod Ymarfer Trwyddedu (LCCP) y Comisiwn Hapchwarae.

### **Peiriannau Betio:**

Bydd y Cyngor yn pwysu a mesur maint y safle, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion rhwng pobl, a gallu aelodau staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i bobl iau na 18 fetio) neu bobl agored i niwed wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr yn dymuno eu cynnig.

## 2.14 Safleoedd Bingo

Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu fodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw safle bingo y rhoddant drwydded safle ar ei gyfer. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol pan fydd gweithredwr safle bingo presennol yn gwneud cais i amrywio ei drwydded i eithrio ardal o'r safle presennol o'i gwmpasiad ac yna'n gwneud cais am drwydded safle newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer ardaloedd eithriedig.

Caiff deiliad trwydded safle bingo gynnig nifer o beiriannau hapchwarae categori B, nad ydynt yn cynrychioli mwy nag 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, i'w defnyddio ar y safle.

Caiff gweithredwyr ganiatáu i blant a phobl ifanc ddod i mewn i safle bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os yw peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, mae'n rhaid i'r rhain gael eu gwahanu oddi wrth ardaloedd lle y caniateir plant a phobl ifanc.

Pan fydd peiriannau Categori C neu uwch ar gael mewn safleoedd bingo y mae gan blant fynediad iddynt, bydd y Cyngor hefyd yn ceisio sicrhau:

- Bod yr holl beiriannau o'r fath wedi'u lleoli mewn rhan o'r safle sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig;
- Mai oedolion yn unig sy'n cael mynd i mewn i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli;
- Bod mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli yn cael ei oruchwylio;
- Bod yr ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli yn cael ei threfnu mewn modd sy'n sicrhau bod y staff neu'r deiliad drwydded yn gallu ei harsylwi; a
- Bod hysbysiadau'n cael eu harddangos mewn man amlwg wrth fynedfa unrhyw ardaloedd o'r fath, a'r tu mewn iddynt, yn nodi na chaiff pobl dan 18 oed fynd i mewn i'r ardal.

Pan ganiateir bingo mewn safleoedd â thrwydded alcohol, rhaid ei fod yn bingo â throsiant ariannol isel yn unig a disgwylir i ymgeiswyr gydymffurfio ag unrhyw Codau Ymarfer a chyngor a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae. Bydd Trwydded Gweithredu Bingo yn ofynnol ar gyfer bingo â throsiant ariannol uchel.

## 2.15 Safleoedd Betio

### Peiriannau betio:

#### *Terfynellau Betio Hunanwasanaeth:*

Yn ôl y Ddeddf, nid peiriant hapchwarae yw peiriant os yw wedi'i gynllunio neu ei addasu i'w defnyddio i fetio ar ddigwyddiadau bywyd go iawn yn y dyfodol. Caiff safleoedd betio gynnig peiriannau i'w defnyddio sy'n derbyn betiau ar ddigwyddiadau byw, fel rasio ceffylau, yn lle gosod bet dros y cownter. Nid peiriannau hapchwarae yw'r "peiriannau betio" hyn: y cyfan y maen nhw'n ei wneud yw awtomeiddio'r broses, y gellir ei chynnal yn bersonol ac, felly, nid oes angen eu rheoleiddio fel peiriant hapchwarae.

Fodd bynnag, pan fydd peiriant ar gael i gymryd betiau ar rasys rhithiol (hynny yw, canlyniadau a/neu luniau a gynhyrchir gan gyfrifiadur i ymdebygu rasys neu ddigwyddiadau eraill), mae'r peiriant hynny'n beiriant betio a bydd yn cyfrif yn uchafswm nifer y peiriannau betio a ganiateir a rhaid iddo fodloni'r cyfyngiadau categori perthnasol ar gyfer y safle.

Bydd y Cyngor yn pwysu a mesur maint y safle, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion rhwng pobl, a gallu aelodau staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i bobl iau na 18 fetio) neu bobl agored i niwed wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr yn dymuno eu cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd gan rai codwyr betiau sawl safle yn yr ardal. Er mwyn sicrhau y caiff materion cydymffurfio eu cydnabod a'u datrys cyn gynted â phosib, gofynnir i weithredwyr roi enw un pwynt cyswllt i'r awdurdod a ddylai fod yn unigolyn hyn y bydd yr awdurdod yn cysylltu ag ef yn gyntaf os bydd unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chydymffurfio neu os bydd unrhyw broblemau'n codi.

## 2.16 Traciau

Gall traciau fod yn destun un drwydded safle neu fwy, cyhyd â bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodedig o'r trac. Mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer prif drwydded, ac mae cais dilynol i amrywio'r drwydded honno'n caniatáu ar gyfer rhoi trwyddedau atodol cyhyd â bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodedig o'r trac, ac nad oes mwy nag un drwydded safle mewn grym mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r trac. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle'n wahanol i'w gilydd a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd hapchwarae na chânt fynd i mewn iddynt.

Felly, mae'r Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr am drwydded safle ddangos mesurau addas i sicrhau nad yw plant yn cael mynediad at gyfleusterau hapchwarae ar gyfer oedolion yn unig. Caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i ardaloedd trac lle y darperir cyfleusterau betio ar ddiwrnodau pan gynhelir rasio cŵn a/neu rasio ceffylau, ond fe'u gwaherddir rhag mynd i mewn i ardaloedd lle y darperir peiriannau hapchwarae (heblaw am beiriannau Categori D).

## 2.17 Peiriannau Hapchwarae:

Caniateir nifer o gategoriâu o beiriannau hapchwarae mewn safleoedd trwyddedig ac eraill ac amlinellir nifer y peiriannau o'r fath y gellid eu caniatáu ym mhob math o safle hapchwarae yn y Ddeddf. Nid oes gan y Cyngor y pŵer i osod cyfyngiadau gwahanol neu ehangu neu gyfyngu ar y categorïau o beiriant a ganiateir. Yr eithriad i hyn yw safleoedd â thrwydded alcohol sydd â thrwyddedau peiriannau hapchwarae, lle bydd gan awdurdodau trwyddedu ddisgresiwn i nodi nifer y peiriannau hapchwarae a ganiateir. At hynny, gosodir cyfyngiadau ar wahân yn y Ddeddf ar gyfer mathau penodol o drwyddedau a gyhoeddir gan awdurdodau trwyddedu. Atodir tabl sy'n amlinellu cymhwysedd peiriannau hapchwarae ym mhob math o safle yn Atodiad 4.

Mae isafswm oedran o 18 oed ar gyfer holl chwaraewyr peiriannau categori A, B ac C, gan gynnwys peiriannau hapchwarae categori B3A sy'n cynnig gemau ar ffurf loteri. Fodd bynnag, nid oes isafswm oedran i chwaraewyr ar beiriannau categori D. Rhaid i ddeiliad unrhyw hawlen neu drwydded safle gydymffurfio â chodau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn o ran lleoliad y peiriannau a mynediad plant a phobl ifanc iddynt, a'u gwahanu rhag peiriannau categori C a B lle caiff y rheiny eu lleoli ar yr un safle.

O ran ymgeisydd sydd â thrwydded gweithredu betio cronfa ac sy'n mynd i ddefnyddio ei hawl i bedwar peiriant hapchwarae, dylai'r peiriannau hynny (heblaw am beiriannau Categori D) gael eu lleoli mewn ardaloedd y gwaherddir plant ohonynt.

### Peiriannau Betio:

Bydd y Cyngor yn pwysu a mesur maint y safle, nifer y safleoedd cownter

sydd ar gael ar gyfer trafodion rhwng pobl, a gallu aelodau staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i bobl iau na 18 fetio) neu bobl agored i niwed wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr yn dymuno eu cynnig.

### **Ceisiadau a chynlluniau:**

Mae'r Ddeddf Hapchwarae'n mynnu bod ymgeiswyr yn cyflwyno cynlluniau o'r safle gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad cytbwys ynghylch pa un a yw'r safle'n addas ar gyfer hapchwarae. Fe'u defnyddir hefyd i gynllunio gweithgarwch arolygu ar gyfer y safle yn y dyfodol.

Dylai cynlluniau ar gyfer traciau gael eu llunio i raddfa a dylent fod yn ddigon manwl i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Efallai y bydd rhai traciau wedi'u lleoli ar dir amaethyddol lle nad yw'r perimedr wedi'i ddiffinio trwy gyfrwng wal neu ffens allanol, fel traciau rasio o fan i fan. Mewn achosion o'r fath, lle y codir ffi fynediad, caiff deiliaid trwydded safle trac godi adeileddau dros dro i gyfyngu mynediad i'r safle.

Yn yr achosion anghyffredin lle na ellir diffinio'r perimedr allanol, mae'n debygol na fydd y trac dan sylw wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn aml. Mewn achosion o'r fath, fe allai fod yn well darparu cyfleusterau betio trwy hysbysiadau defnydd achlysurol sy'n golygu nad oes angen diffinio ffin y safle.

Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau weithiau. Nid oes angen dangos yr union fan lle y darperir cyfleusterau betio ar gynlluniau trac, oherwydd bod betio wedi'i ganiatáu yn unrhyw le ar y safle ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â nodi lleoliadau manwl gywir ar gyfer rhai mathau o drac. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i'r Cyngor allu bodloni ei hun bod y cynllun yn dangos y prif ardaloedd lle y gallai betio ddigwydd. O ran caeau rasio yn arbennig, mae'n rhaid i unrhyw ardal fetio sy'n ddarostyngedig i'r "rheol pum gwaith" (a adwaenir yn gyffredin fel cylchoedd betio) gael ei dangos ar y cynllun.

## **2.18 Ffeiriau Teithiol**

Pan fwriedir cynnig peiriannau categori D a/neu hapchwarae cyfle cyfartal am wobwr heb hawlen mewn ffeiriau teithiol, mae'r Cyngor hwn yn gyfrifol am benderfynu pa un a yw'r gofyniad statudol wedi'i fodloni, sef nad yw'r cyfleusterau ar gyfer hapchwarae'n gyfystyr â mwy na difyrrwch atodol.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol a geir yn y Ddeddf Hapchwarae.

Nodwyd bod yr uchafswm statudol o 27 diwrnod ar gyfer defnyddio'r tir fel ffair fesul blwyddyn galendr, a'i fod yn berthnasol i'r darn o dir lle y cynhelir y ffeiriau, ni waeth pa un ai'r un ffair deithiol neu ffeiriau teithiol gwahanol sy'n



meddiannu'r tir. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir, sy'n croesi ei ffiniau, yn cael ei fonitro fel nad eir yn fwy na'r terfynau statudol.

## 2.19 Datganiadau Dros Dro

Gallai datblygwyr ddymuno cyflwyno cais i'r Cyngor hwn am ddatganiadau dros dro cyn llunio contract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir er mwyn barnu a yw'n werth symud ymlaen â datblygiad yn sgil yr angen i gael trwydded safle. Nid oes angen i'r ymgeisydd fod â thrwydded weithredu i wneud cais am ddatganiad dros dro.

Mae Adran 204 y Ddeddf Hapchwarae'n caniatáu i unigolyn/unigolion wneud cais i'r Cyngor am ddatganiad dros dro mewn perthynas â safle y mae ef/y maen nhw'n:

- disgwyl iddo gael ei adeiladu;
- disgwyl iddo gael ei newid; neu'n
- disgwyl caffael yr hawl i'w feddiannu.

Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un fath â honno ar gyfer cais am drwydded safle. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi gwybod am y cais yn yr un modd â phetai'n gwneud cais am drwydded safle. Caiff awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau a cheir hawliau apelio.

Yn wahanol i gais am drwydded safle, nid oes rhaid i'r ymgeisydd fod â thrwydded weithredu gan y Comisiwn Hapchwarae na bod wedi gwneud cais amdani (heblaw yn achos trac), ac nid oes rhaid iddo fod â'r hawl i feddiannu'r safle y gwneir eu cais dros dro ar ei gyfer.

Yna, caiff deiliad datganiad dros dro wneud cais am drwydded safle pan fydd y safle wedi cael ei adeiladu, ei newid neu ei gaffael. Cyfyngir ar y materion y gall y Cyngor eu hystyried wrth benderfynu ar y cais am drwydded safle, ac o ran sylwadau ynglŷn â cheisiadau am drwydded safle ar ôl caniatáu datganiad dros dro, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau ychwanegol gan awdurdodau perthnasol na phartïon â diddordeb oni bai:

- eu bod yn ymwneud â materion na ellid bod wedi ymdrin â hwy ar y cam datganiad dros dro; neu
- eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd.

Yn ogystal, caiff y Cyngor wrthod y drwydded safle (neu ei chaniatáu ar delerau sy'n wahanol i'r rhai hynny a osodwyd ar y datganiad dros dro) dim ond trwy gyfeirio at faterion:

- na ellid bod wedi'u codi gan wrthwynebwyr ar y cam datganiad dros dro;
- sy'n adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr, ym marn y Cyngor; neu
- lle nad yw'r safle wedi cael ei adeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Mae'n rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r Cyngor yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo

gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

### **3. HAWLENNI/HYSBYSIADAU DROS DRO A DEFNYDD ACHLYSUROL**

Mae'r ffurfiau hyn ar ganiatadau fel a ganlyn:-

- Hawlenni Canolfannau Adloniant i Deuluoedd heb eu trwyddedu
- Hawlenni Gwobrau Hapchwarae
- Hawlenni Safleoedd Peiriannau Gwobrau Hapchwarae Trwyddedig
- Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Clwb
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
- Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

Ceir tabl sy'n amlinellu cymhwysedd peiriannau hapchwarae yn atodedig yn Atodiad 4.

#### **3.1 Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Canolfannau Adloniant Didrwydded i Deuluoedd**

Safleoedd sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer argaeledd peiriannau hapchwarae yn unig a allai fod yn Ganolfannau Adloniant i Deuluoedd Heb eu Trwyddedu. O ganlyniad, yn gyffredinol, ni chaniateir i safleoedd o'r fath gyfateb â chanolfan siopa lawn, maes awyr, gorsaf gwasanaethau traffordd neu debyg. Yn gyffredinol, bydd y peiriannau mewn ardal gaeëdig ddynodedig, wedi'i diffinio'n glir wrth wneud cais gyda'r Cyngor.

Lle nad oes gan weithredwr drwydded safle, ond y mae'n dymuno darparu peiriannau hapchwarae categori D, gellir cyflwyno cais i'r Cyngor am y math hwn o hawlen.

Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer sicrhau bod peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio, ac felly y byddai'n eithrio unrhyw safleoedd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer unrhyw ddibenion eraill, e.e. ffreuturau, siopau cludfwyd, canolfannau hamdden, garejis a gorsafoedd petrol, swyddfeydd tacsis.

Caniateir cais am hawlen dim ond os yw'r Cyngor yn fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant didrwydded i Deuluoedd ac yr ymgynghorwyd â Phrif Swyddog yr Heddlu ynglŷn â'r cais.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn, nid yw niwed wedi'i gyfyngu i niwed trwy hapchwarae; mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Ystyrir effeithlonrwydd y cyfryw bolisïau a gweithdrefnau yn unigol. Fodd bynnag, fe allent gynnwys mesurau/hyfforddiant priodol i staff ar blant ysgol yr amheuir eu bod yn chwarae triwant yn y safle, mesurau/hyfforddiant ar sut y byddai staff yn ymdrin â phlant ifanc iawn heb eu goruchwyllo yn y safle, neu blant sy'n achosi problemau canfyddedig yn y safle neu o'i amgylch.

Bydd y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl, yn unol â Chyfarwyddyd y Comisiwn Hapchwarae, i ymgeiswyr ddangos:-

- Dealltwriaeth lawn o'r betiau a'r gwobrau hapchwarae uchaf a ganiateir mewn Canolfannau Adloniant didrwydded i Deuluoedd;
- Nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rhai hynny a nodir yn Atodlen 7 y Ddeddf);
- Bod staff wedi'u hyfforddi i lwyr ddeall y betiau a'r gwobrau uchaf.

Dylid nodi na all y Cyngor osod amodau ar y math hwn o hawlen.

### **3.2 Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Safleoedd Trwyddedig (Alcohol)**

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i safleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol i'w yfed yn y safle, gael 2 beiriant hapchwarae categori C a/neu D yn awtomatig. Y cyfan y mae angen i'r safle ei wneud yw rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu. Gall y Cyngor ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw safle penodol:

- Os nad yw darparu'r peiriannau'n cyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu;
- Os yw hapchwarae wedi digwydd yn y safle sy'n torri'r amod yn y Ddeddf Hapchwarae sy'n ymwneud â hawl awtomatig i beiriannau hapchwarae (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi i'r awdurdod trwyddedu, bod ffi wedi'i thalu a bod unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant wedi'i ddilyn);
- Os yw'r safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer hapchwarae; neu
- Os cyflawnwyd trosedd yn y safle o dan y Ddeddf Hapchwarae.

Os oes angen mwy na 2 beiriant, bydd rhaid cyflwyno cais am hawlen a bydd y Cyngor yn ystyried y cais hwnnw yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, a'r "*cyfryw faterion ag sy'n berthnasol ym marn y Cyngor.*" Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y "*cyfryw faterion*" ar sail achosion unigol, ond, yn gyffredinol, ystyrir yr angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio trwy hapchwarae, a bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd ei fodloni y bydd mesurau digonol ar waith i sicrhau nad yw pobl iau na 18 oed yn cael mynediad at beiriannau hapchwarae ar gyfer oedolion yn unig.

Gallai'r cyfryw fesurau gynnwys sicrhau bod y peiriannau ar gyfer oedolion wedi'u lleoli yng ngolwg y bar, neu yng ngolwg staff a fydd yn eu monitro er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan bobl iau na 18 oed. Mae'n bosibl y bydd angen hysbysiadau ac arwyddion hefyd. O ran amddiffyn pobl agored i niwed, gallai ymgeiswyr ddymuno darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Gall y Cyngor benderfynu pa un ai caniatáu cais am lai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau nag y cyflwynwyd cais amdanynt. Ni ellir gosod amodau (heblaw am y rhain).

Dylid nodi hefyd bod rhaid i ddeiliad hawlen gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae ynglŷn â lleoliad a gweithrediad y cyfryw beiriannau.

### **3.3 Hawlenni Hapchwarae am Wobrau**

Mae gan y Cyngor yr hawl i baratoi 'Datganiad Egwyddorion' y mae'n bwriadu ei gymhwyso wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r hawlenni hyn a allai, yn arbennig, nodi materion y mae'r awdurdod hwn yn bwriadu eu hystyried wrth bennu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer hawlen.

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r 'Datganiad Egwyddorion' canlynol, sy'n datgan y dylai'r ymgeisydd amlinellu'r mathau o hapchwarae y mae'n bwriadu eu cynnig a bod yr ymgeisydd yn gallu dangos:-

- Ei fod yn deall y terfynau o ran betiau a gwobrau a amlinellir yn y Rheoliadau;
- Bod yr hapchwarae a gynigir o fewn y gyfraith;
- Polisiâu eglur sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i amddiffyn plant rhag niwed.

Wrth wneud penderfyniad ynghylch hawlenni hapchwarae am wobrau, nid oes angen i'r awdurdod ystyried yr amcanion trwyddedu ond mae'n rhaid iddo ystyried unrhyw gyfarwyddyd gan y Comisiwn Hapchwarae.

Dylid nodi bod amodau yn Neddf Hapchwarae 2005 y mae'n rhaid i'r deiliad hawlen gydymffurfio â hwy, ond na all yr awdurdod trwyddedu eu gosod. Dyma'r amodau yn y Ddeddf:-

- Rhaid cydymffurfio â'r terfynau ar ffioedd cyfranogi, fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau;
- Rhaid i bob cyfle i gymryd rhan yn yr hapchwarae gael ei ddyrannu yn y safle ar y diwrnod pryd y cynhelir yr hapchwarae ac ar un diwrnod; mae'n rhaid i'r gêm gael ei chwarae a'i chwblhau ar y diwrnod y dyrennir y cyfleoedd; ac mae'n rhaid i ganlyniad y gêm gael ei gyhoeddi yn y safle ar y diwrnod y'i chwaraeir;
- Ni chaniateir i'r wobwr y chwaraeir y gêm amdani fod yn fwy na'r swm a amlinellir yn y rheoliadau (os yw'n wobwr ariannol), na'r gwerth rhagnodedig (os yw'n wobwr nad yw'n ariannol); a

- Rhaid i gyfranogiad yn yr hapchwarae beidio â rhoi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw hapchwarae arall.

### 3.4 Hawlenni Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau Clybiau

Caiff Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Hawlen Hapchwarae mewn Clwb neu Hawlen Peiriannau Clybiau. Bydd yr Hawlen Hapchwarae mewn Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant categori B, C neu D), hapchwarae cyfle cyfartal a gemau siawns. Caiff Clybiau Aelodau, Sefydliadau Glowyr a Chlybiau Masnachol wneud cais am Hawlen Peiriannau Clybiau. Bydd Hawlen Peiriannau Hapchwarae mewn Clybiau yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant categori B, C neu D). Ni chaniateir i Glybiau Masnachol leoli peiriannau hapchwarae categori B3A sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn sicr bod y clwb yn bodloni gofynion y Ddeddf i gael hawlen hapchwarae mewn clwb. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried nifer o faterion fel y'u hamlinellir yn y Cyfarwyddyd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb, amlder hapchwarae, a sicrhau bod mwy na 25 aelod.

Mae'n rhaid i'r clwb gael ei gynnal "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" at ddibenion heblaw am hapchwarae, oni bai y caniateir yr hapchwarae gan reoliadau ar wahân. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi llunio rheoliadau ac mae'r rhain yn ymdrin â chlybiau *bridge* a chwist.

Caiff y Cyngor wrthod cais ar y seiliau canlynol yn unig:

- (a) Nid yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer clwb aelodau neu fasnachol neu sefydliad lles glowyr, ac felly nid oes ganddo'r hawl i dderbyn y math o hawlen y mae wedi ymgeisio ar ei chyfer;
- (b) Bod safle'r ymgeisydd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
- (c) Bod yr ymgeisydd wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf neu dorhawlen wrth ddarparu cyfleusterau hapchwarae;
- (ch) Bod hawlen a ddaliwyd gan yr ymgeisydd wedi'i diddymu yn ystod y deng mlynedd blaenorol; neu
- (e) Fod gwrthwynebiad wedi'i gyflwyno gan y Comisiwn neu'r heddlu.

Mae gweithdrefn 'garlam' ar gael hefyd o dan y Ddeddf ar gyfer safleoedd sydd â Thystysgrif Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Nid yw clybiau masnachol yn gymwys ar gyfer Tystysgrifau Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac felly ni allant fanteisio ar y weithdrefn garlam. Mae'r cyfarwyddyd i awdurdodau lleol yn datgan: "O dan y weithdrefn garlam, nid oes cyfle i'r Comisiwn na'r heddlu gyflwyno gwrthwynebiadau, ac mae'r seiliau y gall awdurdod wrthod hawlen arnynt wedi'u lleihau." ac "Mae'r seiliau y ceir gwrthod cais arnynt o dan y broses fel a ganlyn:

- (a) Bod y clwb wedi'i sefydlu'n bennaf ar gyfer hapchwarae, ac eithrio hapchwarae a ragnodir o dan atodlen 12;
- (b) Bod yr ymgeisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer mathau eraill o hapchwarae, yn ogystal â'r hapchwarae rhagnodedig; neu
- (c) Fod hawlen hapchwarae mewn clybiau neu hawlen peiriannau clybiau a roddwyd i'r ymgeisydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf wedi'i diddymu."

Mae amodau statudol yn berthnasol i hawlenni hapchwarae mewn clybiau sy'n datgan na chaniateir i unrhyw blentyn ddefnyddio peiriant categori B neu C yn y safle a bod yn rhaid i'r deiliad gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer ynglŷn â lleoliad a gweithrediad peiriannau hapchwarae.

### **3.5 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro**

Mae Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yn caniatáu i safle gael ei ddefnyddio ar gyfer hapchwarae lle nad oes trwydded safle ond lle mae gweithredwr hapchwarae'n dymuno defnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae. Byddai safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad Defnydd Dros Dro yn cynnwys lleoliadau fel gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

Caiff y Cyngor ganiatáu Hysbysiad Defnydd Dros Dro i unigolyn neu gwmni sydd â thrwydded weithredu berthnasol yn unig, h.y. trwydded gweithredu casino heb fod o bell.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y grym i bennu pa fath o hapchwarae y gellir ei awdurdodi gan Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, ac ar adeg ysgrifennu'r Datganiad hwn, mae'r rheoliadau berthnasol yn datgan y gellir defnyddio Hysbysiadau Defnydd Dros Dro dim ond i ganiatáu darparu cyfleusterau hapchwarae cyfle cyfartal, lle y bwriedir i'r hapchwarae gynhyrchu un enillydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu twrnameintiau pocer.

Mae nifer o derfynau statudol yn berthnasol i hysbysiadau defnydd dros dro sy'n mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ofalus i ystyr 'safle' neu 'set o safleoedd' a bydd yn dibynnu ar y ffeithiau yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf, mae'r diffiniad o "safle" yn cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried pa un a yw lle'n dod o fewn y diffiniad o "set o safleoedd", bydd y Cyngor yn ystyried, ymhlith pethau eraill, perchenogaeth / meddiannaeth y safle a'i reolaeth.

Mae'r Cyngor hwn yn disgwyl gwrthwynebu hysbysiadau lle y mae'n ymddangos y byddent yn arwain at ganiatáu hapchwarae rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio fel un set o safleoedd; fel yr argymhellir gan Gyfarwyddyd y Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau trwyddedu.

### **3.6 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol**

Pan fydd betio ar drac am 8 niwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, gellid caniatáu betio drwy hysbysiad defnydd achlysurol heb yr angen am drwydded safle cyflawn. Bwriad hysbysiadu defnydd achlysurol yw caniatáu gweithredwyr betio trwyddedig, gyda'r caniatâd priodol gan y Comisiwn, i ddefnyddio traciau am gyfnodau byr at ddiben betio, pan gynhelir y digwyddiad y gosodir betiau arno ar sail dros dro, anaml (mae'r hysbysiad defnydd achlysurol yn hepgor yr angen am drwydded betio safle ar gyfer y trac dan yr amgylchiadau hyn).

Gellir cynnal nosweithiau rasio anfasnachol i godi arian fel digwyddiadau betio mewn lleoliadau chwaraeon o dan awdurdod hysbysiad defnydd achlysurol, ni waeth a gynhelir y digwyddiad chwaraeon y gosodir betiau arno yn y lleoliad neu beidio. Nid oes angen i'r digwyddiad chwaraeon y gosodir betiau arno gymryd lle ar yr un pryd â'r betio o dan yr hysbysiad defnydd achlysurol.

Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan y Cyngor mewn perthynas â'r hysbysiadu hyn, heblaw am sicrhau nad eir dros y terfyn 8 niwrnod mewn blwyddyn galendr. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried diffiniad 'trac' a pha un a ganiateir i'r ymgeisydd fanteisio ar hysbysiad defnydd achlysurol.

#### **4. LOTERÏAU CYMDEITHASAU BACH**

Mae Deddf Gamblu 2005 yn pennu diffiniad o loteri, manylion isod, ac yn darparu bod hyrwyddo neu hwyluso loteri yn anghyfreithlon oni bai ei fod yn cwmpo i un neu ddau gategori o loteri a ganiateir, sef:

- Loteriau trwyddedig – loteriau cymdeithasau mawr a loteriau wedi'u cynnal er budd awdurdodau lleol yw'r rhain y caiff eu rheoli gan y Comisiwn ac mae angen trwyddedau gweithredu ar eu cyfer;
- loteriau wedi'u heithrio – mae pedwar math o loteri wedi'i heithrio sy'n cael eu caniatáu'n ffurfiol o dan Atodlen 11 y Ddeddf, gan gynnwys loteri cymdeithas fach.

Mae loteri yn unrhyw drefniant sy'n bodloni pob maen prawf sydd wedi'i gynnwys yn nisgrifiad statudol o naill ai loteri syml neu loteri gymhleth, yn unol ag adran 14 y Ddeddf.

Y "gymdeithas" yw'r gymdeithas, neu unrhyw gangen ar wahân sy'n perthyn i gymdeithas o'i bath, y caiff loteri ei hyrwyddo ar ei rhan ac a sefydlwyd fel sefydliad anfasnachol. Mae adran 19 y Ddeddf yn diffinio cymdeithas yn gymdeithas os yw'n sefydledig ac fe'i cynhelir:

- at ddibenion elusennol, fel y'i diffinnir yn adran 2 Deddf Elusennau 2006;
- at ddibenion galluogi cyfranogiad mewn gweithgaredd chwaraeon, athletau neu ddiwylliannol neu gefnogaeth ohono.
- Unrhyw ddiben anfasnachol arall heblaw am elw preifat.

Rhaid i'r gymdeithas fod wedi'i sefydlu at un o'r dibenion a ganiateir fel y'i pennir yn adran 19 y Ddeddf ac y neilltuir elw'r loteri at y dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas â'r unig ddiben o hyrwyddo loteriau.

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl i weithredu eu loteriau eu hunain ond gellir ond

gwneud hyn os ydynt wedi'u trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae. Rhaid i awdurdodau lleol ymrwymo isafswm o 20% o'r elw o loteriau at y diben y mae ganddynt y pŵer i fynd i gostau ar ei gyfer ac rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill y Ddeddf. Efallai y bydd angen iddynt hefyd ddal trwydded gweithredu hapchwarae, os ydynt am werthu tocynnau loteri drwy ddulliau electronig neu ddull technolegol pell arall, megis dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy'r we.

Rhaid i geisiadau am gofrestrïadau loteriau cymdeithasau bach fod ar ffurf y pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac rhaid cyflwyno ffi gofrestru a chopi o'r amodau a'r telerau a'r ymgynghoriad i brofi eu bod yn gymdeithas anfasnachol. Mae paragraffau 7 a 48 Atodlen 11 y Ddeddf yn amlinellu'r sail dros wrthod cais cofrestrïad loteri cymdeithas fach gan awdurdodau trwyddedu.

Mae'r Cyngor wedi mabwysïadu ymagwedd seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loteriau cymdeithasau bach. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gynhwysol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni hwyr (mae'n rhaid i ffurflenni gael eu cyflwyno o fewn tri mis o'r dyddiad pryd y cynhaliwyd y loteri)
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir
- torri'r terfynau ar gyfer loteriau cymdeithasau bach

Caniateir hapchwarae anfasnachol os yw'n cael ei gynnal mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd atodol neu brif weithgaredd yn y digwyddiad. Mae digwyddïadau'n anfasnachol os nad oes unrhyw ran o'r enillion ar gyfer elw preifat. Caiff un unigolyn neu fwy elwa ar enillion y cyfryw ddiwyddïadau os yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu:

- gan elusen neu ar ei rhan, neu at ddibenion elusennol
- i alluogi cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol, neu i'w cefnogi.

Dylai elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r Cyngor ar 01443 866750 neu [trwyddedu@caerffili.gov.uk](mailto:trwyddedu@caerffili.gov.uk) i geisio cyngor ychwanegol i gofrestru'r loteri a darparu tystiolaeth bod y casgliad at ddibenion elusennol, i gefnogi gweithgareddau chwaraeon, athletau neu ddiwylliannol.

## **5. GWNEUD PENDERFYNIADAU**

### **5.1 Gweinyddu, Cyflawni a Dirprwyo Swyddogaethau**

Caiff grymoedd a dyletswyddau'r Cyngor o dan y Ddeddf gael eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan Is-bwyllgor neu gan un swyddog neu fwy sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig.

Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau o natur weinyddol yn bennaf heb unrhyw feysydd dadleuol canfyddedig. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, bydd y rhain yn cael eu cyflawni gan swyddogion gan



mwyaf. Rhoddir atodlen sy'n amlinellu dirprwyaeth swyddogaethau a phenderfyniadau'r Cyngor hwn wedi'i chynnwys yn Atodiad 6. Er hynny, caiff y Cyngor atgyfeirio unrhyw fater i'r Pwyllgor Trwyddedu neu'r Is-bwyllgor.

## 5.2 Y Weithdrefn Apelio

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r hawl i apelio ar gyfer partion sy'n anfodlon ar benderfyniadau'r Cyngor. Mae'n rhaid cyflwyno apeliadau i'r Llys Ynadon ar gyfer yr ardal y mae'r awdurdod trwyddedu, sydd wedi ystyried y cais, wedi'i leoli ynddi.

Mae'n rhaid i'r apelydd gychwyn apêl trwy roi rhybudd ohoni i'r Llys Ynadon, o fewn cyfnod o 21 diwrnod, yn dechrau ar y diwrnod pryd yr hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor o'r penderfyniad sy'n destun apêl.

Wrth benderfynu ar apêl, caiff y Llys:

- Wrthod yr apêl;
- Disodli'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn ag unrhyw benderfyniad arall y gallai'r awdurdod trwyddedu fod wedi'i wneud;
- Atgyfeirio'r apêl yn ôl i'r awdurdod trwyddedu benderfynu arni yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- Gwneud gorchymyn ynglŷn â chostau.

## 5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau

Bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau ac yn mynd i'r afael â'r graddau y gwnaed penderfyniadau o ystyried unrhyw godau ymarfer perthnasol a chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, gan gyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

## 5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon

Cyn gynted â bod penderfyniad y Llys Ynadon wedi'i hysbysu i bob parti, ni fydd y Cyngor yn gohirio ei weithredu a bydd camau angenrheidiol yn cael eu cymryd ar unwaith oni bai bod y cyngor yn cael ei orchymyn gan lys uwch i atal gweithred o'r fath (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol parhaus). Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl arall yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

## 5.5 Cwynion ynghylch Safleoedd Trwyddedig

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion ynghylch safleoedd trwyddedig mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i drafod y gŵyn yn uniongyrchol â'r deiliad trwydded neu'r busnes dan sylw er mwyn ceisio datrysiaid lleol.

Pan fydd parti â diddordeb wedi cyflwyno sylw dilys ynglŷn â safle trwyddedig neu gais dilys am adolygu trwydded, gallai'r Cyngor ddechrau trwy drefnu cyfarfod cymodi i egluro'r materion sy'n achosi pryder a mynd i'r afael â hwy.

Ni fydd y broses hon yn disodli hawl unrhyw barti â diddordeb i ofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae ystyried eu gwrthwynebiadau dilys, na hawl unrhyw ddeiliad trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

Rhoddir ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau perthnasol oni bai nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir isod.

## 5.6 Adolygiadau

Gall Partïon â Diddordeb neu Awdurdodau Cyfrifol gyflwyno ceisiadau am adolygiad. Fodd bynnag, y Cyngor sydd i benderfynu p'un ai cynnal yr adolygiad yn seiliedig ar unrhyw godau ymarfer perthnasol a chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, gan gyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r cais am adolygiad yn wacsaw, yn flinderus, neu'n debyg iawn i sylwadau blaenorol neu geisiadau blaenorol am adolygiad.

Gall y Cyngor hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle benodol, neu ddsbarth penodol o drwyddedau safle am unrhyw reswm sy'n briodol yn ei farn ef.

Pan fydd y Cyngor wedi derbyn cais dilys am adolygiad, gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau. Mae graddfeydd amser wedi'u rhagnodi ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi gwybod am gais a gwrandawriad gerbron y pwyllgor perthnasol.

Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Cyngor gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r drwydded. Os oes cyfiawnhad dros weithredu, mae'r dewisiadau canlynol ar gael i'r Cyngor:-

- ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod ar drwydded a osodwyd gan y Cyngor;
- eithrio amod diofyn a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio amod o'r fath;
- atal y drwydded safle dros dro am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis; a
- diddymu'r drwydded safle.

Wrth benderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr egwyddorion a amlinellir yn y Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

Yn arbennig, caiff y Cyngor hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle ar y sail nad yw deiliad y drwydded safle wedi darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae yn y safle. Diben hyn yw atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn modd tybiannol heb fwriadu eu defnyddio.

Pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i'r Cyngor roi gwybod i'r canlynol am ei benderfyniad cyn gynted â phosibl:

- y deiliad trwydded;

- y sawl a gyflwynodd y cais am adolygiad (os oes un);
- y Comisiwn;
- unrhyw unigolyn a gyflwynodd sylwadau;
- prif swyddog yr heddlu neu'r prif gwnstabl; a
- Chomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

## 6 AMODAU A CHODAU YMARFER TRWYDDEDU 2015 (LCCP)

Mae Deddf Gamblo 2005 yn ei wneud yn ofynnol i'r Comisiwn Hapchwarae gyhoeddi un côd ymarfer neu fwy ynghylch dull cyflwyno cyfleusterau gamblo. Gellir cyfeirio'r codau at ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ystyried unrhyw gôd ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn o dan adran 24 wrth ymgymryd â'u dyletswyddau, ac yn yr achos hwn:-

- *Amodau trwydded a chodau ymarfer* y Comisiwn, sy'n berthnasol i ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol y Comisiwn Hapchwarae;
- Codau eraill – sef côd ymarfer y Comisiwn ar gyfer chwarae â siawns cyfartal a'i gôd ymarfer ar gyfer peiriannau hapchwarae mewn clybiau a safleoedd â thrwydded alcohol

Mae'r amodau trwydded a chodau ymarfer yn cynnwys dau fath o ddarpariaeth côd:

### **Darpariaethau côd ar gyfer cyfrifoldeb cymdeithasol**

Mae'r rhain yn ddarpariaethau sy'n disgrifio trefniadau y dylai unigolion sy'n darparu cyfleusterau hapchwarae eu gwneud at ddiben:-

- (a) Sicrhau y caiff hapchwarae ei gynnig mewn ffordd deg ac agored;
- (b) Amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae; a
- (c) Sicrhau bod cymorth ar gael i bobl y mae problemau sy'n gysylltiedig â hapchwarae yn effeithio arnynt neu a allai effeithio arnynt

Mae cydymffurfio â'r rhain yn amod o drwydded gweithredwr. O ganlyniad, gall unrhyw doriad o'r rhain gan weithredwr trwyddedig arwain at ailystyried trwydded y gweithredwr gan y Comisiwn, gyda golwg ar waharddiad neu ddiddymiad neu osod cosb ariannol a fyddai hefyd yn achosi'r gweithredwr i fod yn agored i'r risg o erlyniaeth. Mae'r darpariaethau hyn yn y blychau tywyll yng ngweddill y ddogfen hon.

### **Darpariaethau côd arferol**

Nid oes gan y rhain statws amodau trwydded yn achos gweithredwyr trwyddedig, ond maent yn pennu arfer da.

Mae codau ymarfer yn dystiolaeth dderbyniadwy mewn gweithrediadau cyfreithiol neu sifil ac rhaid eu hystyried mewn unrhyw achos lle mae'r llys neu'r tribiwnlys yn credu eu bod yn berthnasol, a chan y Comisiwn wrth ymarfer ei swyddogaethau. Gall unrhyw gefnu ar ddarpariaethau codau gan weithredwr gael ei ystyried gan y Comisiwn, er enghraifft mewn adolygiad o drwydded (ond ni allai arwain at osod cosb ariannol).

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi'i wneud yn glir y gall gweithredwyr trwyddedig fabwysiadu ymagweddau amgen i'r rhai hynny a nodwyd os ydynt wedi ystyried y ddarpariaeth yn rhagweithiol a gallant ddangos bod ymagwedd amgen yn rhesymol dan yr amgylchiadau penodol, neu y byddai cymryd ymagwedd amgen yn golygu ei fod yn gweithredu mewn ffordd debyg.

### **Asesiadau Risg – Safle**

Mae'r amodau trwydded a chodau ymarfer yn ei wneud yn ofynnol i bob deiliad trwydded presennol sy'n cynnig hapchwarae ar ei safle asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a meddu ar bolisiau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i leihau'r risgiau hynny. Rhaid i ddeiliaid trwyddedu ystyried unrhyw faterion perthnasol a nodir yn Natganiad o Bolisi yr awdurdodau trwyddedu (hapchwarae) wrth gwblhau eu hasesiadau risg.

Dylid hefyd gwblhau asesiad o risg leol neu ei ddiweddarau gan ddeiliad trwydded wrth cyflwyno cais am:-

- Drwydded ar gyfer safle newydd;
- Wrth gyflwyno cais i amrywio trwydded safle bresennol;
- Ystyried unrhyw newidiadau sylweddol lleol yn yr ardal leol;
- Pan fydd newidiadau sylweddol yn y safle a allai effeithio ar yr asesiad o risg leol presennol.

Mae'n ofynnol i weithredwyr gyflwyno'r asesiad risg i awdurdodau trwyddedu wrth gyflwyno cais a dylid cadw copi ar y safle neu ei gyflwyno ar gais fel arall, a bydd hyn yn rhan o drefniant archwilio neu ymchwilio i gwynion y Cyngor.

Mae'r côd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi'r materion y maent yn disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi ac mae'r cyngor hwn yn disgwyl i weithredwyr ystyried y materion canlynol wrth wneud eu hasesiad risg.

- Gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-waharddiadau ac achosion o hapchwarae dan oed,
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu taliadau budd-dal
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thuueddiadau hapchwarae.
- Lleoliad trefol megis agosrwydd i ysgolion, amgylchedd masnachol, ffactorau sy'n effeithio ar nifer yr ymwelwyr,
- Amrediad o gyfleusterau yn agos at yr eiddo trwyddedig fel siopau hapchwarae eraill, banciau, swyddfeydd post, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant
- Problemau hysbys yn yr ardal megis problemau sy'n codi o yfed alcohol ar y stryd, pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithgareddau gwerthu cyffuriau, ac ati.

**Safleoedd Traciau Betio** – Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn datgan yn ei gôd LCCP bod yn rhaid i Weithredwyr gwblhau asesiad risg. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol cael Trwydded Gweithredwr ar gyfer Safleoedd Traciau Betio gyda'r Comisiwn Hapchwarae ac, o ganlyniad, nid yw'n ofynnol cwblhau asesiad risg. Fodd bynnag, er budd

amcanion Deddf Gamblo 2005, sef i) atal hapchwarae rhag bod yn achos o droseddu ac anrhefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anrhefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd; ii) sicrhau y caiff hapchwarae ei gynnig mewn ffordd deg ac agored; iii) amddiffyn plant a phob eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu newidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae, byddai'r Cyngor hwn yn disgwyl i Safle Traciau Betio ymgymryd ag asesiad ar gyfer y safle.

Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys;

- Sefydliadau, manau neu ardaloedd lle y dylid disgwyl plant a phobl ifanc i fod yn bresennol, fel ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, lleoedd chwarae a lleoliadau adloniant fel aleau bowlio, sinemâu ac ati.
- Unrhyw safle lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bysiau, caffis, siopau, ac unrhyw fan arall sy'n denu plant,
- Ardaloedd sy'n dueddol o gael problemau'n gysylltiedig â phobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti/tagio, yfed dan oed, ac ati
- Achosion a gofnodwyd o geisio hapchwarae dan oed

Materion yn ymwneud ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys;

- Gwybodaeth a ddelir gan y trwyddedai ynglŷn â hunaneithriadau ac achosion hapchwarae dan oed,
- Tueddiadau hapchwarae a allai gyd-fynd â diwrnodau ar gyfer taliadau ariannol fel diwrnodau cyflog neu daliadau budd-dal
- Trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol am hunaneithriadau a thueddiadau hapchwarae.
- Agosrwydd safleoedd y gallai pobl agored i niwed fynd iddynt yn aml, fel ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, canolfannau cymorth neu glinigau dibyniaeth, manau lle y gallai pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati. Bydd ystyried lleoliad safleoedd trwyddedig i werthu alcohol hefyd yn ystyriaeth allweddol ar gyfer ceisiadau am drwydded hapchwarae.

Gall materion eraill y gellid eu hystyried gynnwys;

- Materion ffydd yn ymwneud â phob enwad crefyddol neu ffydd, gan gynnwys agosrwydd i eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw fannau addoli eraill.
- Cyfansoddiad economaidd ardal;
- Economi liw nos amgylchynol;
- Cartrefi i blant a chyfleusterau gofal;
- Nifer yr ymwelwyr i'r ardal, e.e. ardaloedd masnachol neu breswyl;
- Banciau a pheiriannau codi arian gerllaw;
- Problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol amlwg;
- Cyfleusterau tai;
- Canolfannau byd gwaith;
- Hosteli a gwasanaethau cefnogi i'r digartref;
- Cyfleusterau cefnogi alcohol a chyffuriau;

- Gwystlwyr a busnesau benthyciadau diwrnod talu;
- Os oes clwstwr presennol o adeiladau hapchwarae;
- Cyfleusterau iechyd meddwl;
- Adeiladau cymunedol;
- Sefydliadau gofal preswyl;
- Cyfleusterau cludiant a pharcio, e.e. arosfannau bysiau a thacsis, gorsafoedd trenau;
- Presenoldeb pobl sy'n cysgu ar y stryd;
- Cyfraddau diweithdra yn yr ardal;
- Mathau a chyfraddau troseddau yn yr ardal a allai effeithio ar y safle;
- Ardaloedd gyda llawer o blant, e.e. parciau a mannau chwarae.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth ac mae'n rhaid i'r deiliad trwydded ystyried ffactorau eraill a amlygwyd ganddo nad ydynt ar y rhestr hon.

### **Newidiadau sylweddol i'r safle**

O bryd i'w gilydd, bydd gweithredwyr yn adnewyddu cynllun ac addurno'r safle a fydd y annhebygol o sbarduno adolygiad o asesiad risg y safle hwnnw. Fodd bynnag, pan fydd newid sylweddol i'r safle a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, yna rhaid i'r gweithredwr adolygu'r asesiad risg ac, os oes angen, ei ddiweddarau, gan gymryd i ystyriaeth y newid a sut y gallai effeithio ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

Disgwylir i weithredwyr hapchwarae ymgymryd â'r broses asesu risgiau hon yn naturiol pan fydd unrhyw waith aildrefnu ar y safle, newidiadau i'w gynllun neu fesurau rheoli mewnol. Os oes unrhyw newidiadau sy'n achosi'r angen i adolygu'r asesiadau risg ar gyfer y safle hwnnw, dylai gweithredwyr hapchwarae sicrhau bod ganddynt system ar waith i gofnodi a gweithredu unrhyw fesurau a nodir yn yr adolygiad hwnnw.

Y gweithredwr hapchwarae a fydd yn gyfrifol am nodi os oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r safle wedi digwydd. Er mwyn cynorthwyo gweithredwyr hapchwarae, mae'r Cyngor wedi darparu'r rhestr ganlynol o enghreifftiau o'r hyn a allai gael ei ystyried yn newid sylweddol i'r safle (bydd rhai ohonynt angen amrywio'r drwydded safle bresennol hefyd).

- Unrhyw waith adeiladu neu adnewyddu ar y safle lle caiff cyfleusterau hapchwarae eu hadleoli o fewn y safle.
- Trosglwyddir y drwydded safle i weithredwr newydd a fydd y gweithredu'r safle gyda'i weithdrefnau a'i bolisïau ei hun sy'n wahanol i'r rheiny'r gweithredwr blaenorol.
- Unrhyw newid i bolisïau mewnol y gweithredwr a fydd, o ganlyniad, yn achosi mesurau rheoli mewnol ychwanegol neu newidiadau iddynt; a/neu bydd angen ailhyfforddi staff ar y newidiadau polisi hynny.
- Caiff mynedfa neu fynedfeydd y safle eu newid, er enghraifft, caiff deunydd y drysau eu newid o fetal â farnis i ddrws gwydr llawn neu ddrysau sy'n cael eu hadleoli o fod yn allanfa i fod yn fynedfa a vice versa.
- Mae cyfleusterau hapchwarae newydd ar gael ar y safle nad oeddent yno'n flaenorol, er enghraifft, betio wrth chwarae, dyfeisiau chwarae â llaw i gwsmeriaid, Terfynellau Chwarae Hunanwasanaeth neu darperir categori gwahanol o beiriant chwarae.

- Mae gweithredwr y safle yn gwneud cais am drwydded i'r safle er mwyn cynnig gweithgaredd o dan drefniadau rheoli gwahanol, er enghraifft, er mwyn caniatáu gwerthu alcohol.

Fel yr enghreifftiau o newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol, nid yw'r rhestr uchod yn rhestr gynhwysfawr o newidiadau sylweddol i safle.

Ni fydd y Cyngor, yn gyffredinol, yn gofyn am yr asesiad risg a adolygwyd os yw newid sylweddol i'r safle trwyddedig wedi digwydd oni bai bod y newid yn un a fydd yn gwneud cais amrywio'n ofynnol.

### **Amrywio trwydded y safle**

Trwyddedau amrywio safleoedd yw'r rhai hynny'n unig y mae'n ofynnol eu gwneud o dan adran 187 y Ddeddf ac ni fydd yn cynnwys newid mewn amgylchiadau megis newid enw'r safle neu newid cyfeiriad y gweithredwr, etc.

Mae darpariaeth 10.1.1 côd cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn yn ei wneud yn ofynnol i weithredwyr hapchwarae gwblhau asesiad risg leol a'i ddiweddarau os bydd rhaid wrth baratoi cais i amrywio trwydded y safle. Gall gweithredwyr sy'n cyflwyno cais amrywio i'r Cyngor ystyried cyflwyno copi o'r asesiad risg leol a adolygwyd wrth gyflwyno'r cais. Bydd hyn yn dileu'r angen i'r Cyngor ofyn i weld copi o'r asesiad risg a gallai leihau'r tebygolrwydd o wneud sylwadau gyda'r cais. Bydd hyn wedyn yn negyddu'r angen i'r Cyngor ofyn am weld copi o'r asesiad risg hwn a gallai ostwng y tebygolrwydd y bydd sylw'n cael ei wneud i'r cais.

Os yw gweithredwr yn dymuno amrywio trwydded safle a droswyd yn gasino o un safle i safle arall, dylai'r gweithredwr ystyried gwblhau asesiad risg ar gyfer y safle hwnnw. Cyngorior cyflwyno copi o'r asesiad i'r Cyngor ynghyd â'r ffurflen gais.

### **Adolygiad rheolaidd o asesiad o risg**

Er budd arfer gorau, mae'r Cyngor yn argymhell y dylai gweithredwyr sefydlu trefniant adolygu rheolaidd mewn perthynas â'u hasesiadau risg leol. Gellir cynnal y rhaglen adolygu hon ochr yn ochr ag adolygiadau eraill ar asesiadau risg lechyd a Diogelwch ar y safle. Byddai'r rhaglen adolygu hon yn sicrhau yr ystyrir yr asesiadau risg hyn yn rheolaidd a'u diweddarau lle bo angen, ni waeth os yw un o'r digwyddiadau sbarduno uchod wedi digwydd neu beidio.

Y gweithredwr hapchwarae a fydd yn gyfrifol am osod amllder yr adolygiadau hyn ond argymhellir na ddylai mwy na thair blynedd fynd heibio cyn adolygu'r asesiadau hyn. Efallai y bydd gweithredwyr am gydamseru eu hadolygiadau o'r asesiadau risg leol â chyhoeddiad Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu ar gyfer Hapchwarae'r Cyngor. Byddai hyn yn galluogi gweithredwyr hapchwarae i ystyried Proffil Ardal Leol, a gyhoeddwyd yn Natganiad Egwyddorion Trwyddedu Hapchwarae'r Cyngor.

### **Risgiau lleol a mesurau rheoli**

Ceir dwy ran benodol i'r broses asesu risg:

- asesiad risgiau lleol
- penderfynu ar liniaru priodol i leihau'r risgiau hynny

Mae'r risgiau y mae'n rhaid i weithredwyr eu nodi'n berthnasol i'r effaith bosib y gall safleoedd hapchwarae a'u gweithrediad gael yr amcanion trwyddedu. Dylai gweithredwyr trwydded nodi a rhestru'r holl risgiau lleol a nodwyd ganddynt yn yr asesiad. Gall lefel y risgiau hyn amrywio o isel i uchel iawn, gan ddibynnu ar yr effaith bosib y mae'r gweithredwr hapchwarae wedi nodi o ran yr amcanion trwyddedu. Bydd gan lefel unrhyw risg effaith uniongyrchol ar y math o fesurau rheoli a'u hehangder y mae'r gweithredwr hapchwarae yn eu hystyried yn angenrheidiol i liniaru risg o'i math.

Bydd gweithredwyr eisoes yn asesu lleoliadau wrth chwilio am safleoedd newydd neu wrth adolygu perfformiad eu safleoedd. Caiff dyluniad y safle hefyd ei asesu i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y gweithrediad hapchwarae, gan ddarparu amddiffyniad i staff a chwsmeriaid, a bydd ganddo gyfleusterau ar gyfer cofnodi trosedd. Bydd gan weithredwyr hefyd bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r safleoedd yn unol â gofynion statudol rheoleiddiol eraill y mae'r Comisiwn ac asiantaethau eraill yn gosod arnynt.

Bydd gweithredwyr eisoes yn gyfarwydd â nodi risgiau mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a hylendid bwyd. Defnyddir asesiadau risg hefyd at ddibenion diogelwch a throsedd, er enghraifft gwyngalchu arian ac fel rhan o arfer gorau cymdeithasau masnachu, megis y Gymdeithas Betio'n Ddiogel.

Mae'r broses asesu risg leol, er ei bod yn debyg, yn gofyn am ystod lawer ehangach o ystyriaethau wrth nodi risgiau lleol. Gofyniad darpariaeth 10.1.1 côd cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn yw y dylai gweithredwyr hapchwarae ystyried yr ardal leol lle lleolir eu safleoedd a'r effaith y gallai gweithrediad y safle ei chael ar yr amcanion trwyddedu.

### **Risgiau Ardal Leol**

Mae nifer o ffactorau sy'n ymwneud â'r ardal leol y gallai gweithredwyr eu hystyried sy'n annibynnol o'r bobl y mae'r gweithredwyr yn eu hystyried i fod yn farchnad darged. Cyfrifoldeb y gweithredwr hapchwarae fydd nodi'r risgiau hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd y Comisiwn neu'r Cyngor yn darparu gwybodaeth ar yr hyn maent yn ei ystyried i fod yn risg leol. Gellid nodi hyn yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu neu mewn dogfen o ganllawiau ar wahân a cheir mynediad i'r ddau ar wefan y Cyngor.

Bydd yr ardal leol yn wahanol gan ddibynnu ar y safle a maint ei weithrediad. Er enghraifft, efallai y bydd gan neuadd Fingo fawr dalgylch mwy na siop fetio yn y gymdogaeth oherwydd bydd y neuadd Fingo yn denu cwsmeriaid o ymhellach i fwrdd.

### **Asesiad Risg**

Er bod hapchwarae'n weithgaredd adloniant cyfreithiol, mewn rhai lleoliadau gall gael effaith negyddol ar unigolion a'r gymuned ehangach. Bydd ystyried agosrwydd adeiladau hapchwarae i leoliadau lle gall grwpiau sy'n agored i hapchwarae problemus ymgynnull, e.e. ysgolion, gwasanaethau alcohol, tai â chymorth, fod yn flaenoriaeth i'r ymgeisydd a'r awdurdod trwyddedu. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili wedi cynhyrchu Asesiad o Lesiant fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Asesiad yn cynnwys ystyriaeth o Lesiant



Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol y Sir wrth bennu'r 'Caerffili a Garem'.

Ceir manylion llawn yn – [Asesiad Ilesiant - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili](#)

Gellir cael data troseddau ar gyfer yr ardal leol yn [www.gwent.police.uk/cy/hafan/](http://www.gwent.police.uk/cy/hafan/)

### **Risgiau gweithredu hapchwarae**

Mae gweithredu hapchwarae yn ymwneud â sut y cynhelir y safle. Bydd hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r gweithredwr a roddwyd ar waith er mwyn bodloni gofynion y busnes, y Ddeddf a/neu ddarpariaethau codau penodol o fewn yr LCCP.

Dylai gweithredwyr hapchwarae nodi risgiau gweithredol i'r amcanion trwyddedu yn yr ardal leol ac yna ystyried a oes mesurau rheoli ar ben y rhai sydd eisoes ar waith a fyddai'n lliniaru'r risg. Er enghraifft, os oes defnydd o gyffuriau anghyfreithlon amlwg yn yr ardal leol, efallai y bydd y gweithredwr yn ystyried defnyddio mesurau rheoli megis clo magnetig ar ddrysau'r toiledau neu newid dyluniad y toiledau i rwystro pobl rhag eu defnyddio at ddibenion defnyddio cyffuriau anghyfreithlon.

Mae'n debygol y bydd nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r elfen hon o'r asesiad yn debyg iawn i'r holl safleoedd, gyda mân amrywiadau gan ddibynnu ar ffactorau penodol sy'n berthnasol i'r safle yn yr ardal leol.

Bydd y mesurau rheoli y mae gweithredwyr yn eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad hapchwarae yn dibynnu ar y math o weithgareddau hapchwarae a gynigir, sut mae'r cwmni yn gweithredu a maint y sefydliad.

### **Risgiau dyluniad y safle**

Mae dyluniad y safle yn ffactor hollbwysig wrth ystyried risgiau lleol. Er enghraifft, gall Canolfan Hapchwarae i Oedolion a leolir mewn ardal ag iddi nifer uchel o blant a phobl ifanc yn ystod y diwrnod nodi bod drysau ar y naill ochr na'r llall y safle'n cael eu defnyddio gan blant fel llwybr byr i gael mynediad i'r stryd gyfagos. Y cam lliniaru priodol yn yr achos hwn fyddai o bosib bod y gweithredwr yn cau un o'r drysau hynny er mwyn ei atal rhag cael ei ddefnyddio fel llwybr byr.

Fel rhan o'r broses ddylunio, mae cynllun y safle yn brif ystyriaeth oherwydd gallai cysyniad cynllunio gwael greu risgiau sylweddol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. Mae gweithredwyr hapchwarae yn brofiadol o ran dylunio safle ac yn aml, ystyrir y rhain yn ystod y cam cynllunio. Argymhellir bod gweithredwyr hapchwarae yn sicrhau bod yna broses ar waith er mwyn cofnodi'r penderfyniadau allweddol hyn yn gynnar iawn ym mhroses gynllunio'r safle er mwyn eu cynnwys yn eu hasesiad risg.

### **Risgiau addurno mewnol**

Bydd yr addurniad a'r cynllun mewnol yn adlewyrchu gweithrediad y safle a'r math o gyfleusterau hapchwarae a gynigir. I rai safleoedd, bydd y dyluniad yn destun cyfyngiadau penodol o ganlyniad i amodau gorfodol ar y drwydded safle hapchwarae, megis y pellter rhwng byrddau hapchwarae a chyfleusterau

hapchwarae eraill mewn casinos, a chyfyngiadau ar lleoliad peiriannau codi arian.

Dylai gweithredwyr asesu risgiau cynllun mewnol y safle a lleoliad y cyfleusterau hapchwarae yndd0. Er enghraifft, os lleolir peiriant hapchwarae lle gall staff y cownter arian ei weld, gall staff fonitro ymddygiad y chwaraewr ac ymyrryd os oes pryderon ynghylch arferion gwario'r cwsmer. Gall staff hefyd fonitro'r defnydd o beiriannau a herio unrhyw gwsmeriaid y credir eu bod dan 18 oed, sy'n difrodi peiriannau neu mae'n ymddangos eu bod yn gwyngalchu arian. Trwy asesiad syml o'r lleoliad delfrydol ar gyfer y peirannau hyn, gall gweithredwyr leihau'n sylweddol y risg i'r amcanion trwyddedu.

## **Risgiau dylunio allanol**

Bydd y tu allan i safle'n hysbyseb enfawr i'r gweithredwr hapchwarae. Fodd bynnag, dylid asesu'r dylunio ar sail y risg gysylltiedig. Gallai gweithredwyr nodi risg sy'n gysylltiedig â'r dyluniad a chyflwyno mesurau rheoli yn seiliedig ar y risg ganfyddedig. Er enghraifft, os oes gan y safle ffyrtiad â llawer o wydr mewn ardal sy'n dueddol i ddifrod troseddol, gallai gweithredwyr ystyried y risg o ddifrod i'r gwydr safonol a gryfhawyd i fod yn uchel a chyflwyno mesurau rheoli megis caeadau rollo a/neu gamerâu teledu cylch cyfyng.

## **Mesurau rheoli**

Gan ddibynnu ar natur y ffactorau risg, gallai'r mesurau rheoli a nodir er mwyn lliniaru'r risg ganfyddedig fod yn gyfuniad o systemau, dyluniadau a mesurau ffisegol. Gallai mesurau rheoli sy'n berthnasol i systemau fod yn fesurau a roddwyd ar waith drwy bolisiau a gweithdrefnau. Gallai'r rhain fod naill ai'n systemau sy'n berthnasol i holl safleoedd y gweithredwr neu'n systemau a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer safle penodol i fynd i'r afael â ffactor risg leol benodol. Gall systemau o fesurau rheoli gynnwys hyfforddiant i staff a pholisiau a gweithdrefnau diogelwch. Gallant hefyd fod yn berthnasol i gael staff diogelwch wrth fynedfeydd, gweithredu meini prawf ar gyfer aelodaeth a/neu ddarparu cefnogaeth i grwpiau lleol sy'n agored i niwed drwy ddulliau ariannol neu eraill.

Mesurau rheoli dylunio yw mesurau sydd wedi'u cynnwys yn nyluniad y safle. Gall y rhain gynnwys lleoliad cyfleusterau hapchwarae a dyluniad a lleoliad cownteri arian o fewn y safle, a dyluniad allanol y safle. Er enghraifft, gallai mesur rheoli ar gyfer y tu mewn i'r safle olygu symud cownter arian o gefn y safle i flaen y siop wrth ymyl y brif fynedfa. Gallai mesur rheoli dyluniad allanol olygu teilwra'r dyluniad allanol i fynd i'r afael â risgiau lleol, er enghraifft mwy o arddangosiadau yn y ffenestri i alluogi staff i weld y tu allan i'r safle neu ddyluniad i osgoi denu plant i'r atyniad.

Mae mesurau rheoli terfynol yn berthnasol i fesurau ffisegol penodol a fydd yn mynd i'r afael â ffactor risg a nodwyd. Gallai'r mesurau rheoli ffisegol hyn, er enghraifft, gynnwys larymau, camerâu teledu cylch cyfwng, drysau, cloeon magnetig, cloeon wedi'u hamseru ar goffrau, citiau poeri, caeadau ffenestri, systemau creu niwl a goleuadau uwchfioled yn y toiledau.

Gallai'r mesurau rheoli a nodwyd i liniaru risg ganfyddedig gynnwys cyfuno systemau, dyluniadau a mesurau ffisegol. Er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phlant yn cael mynediad i safle hapchwarae a

gyfyngir i bobl dros 18 oed, gallai'r gweithredwr nodi'r mesurau rheoli canlynol:

**Systemau:** cerdyn PASS neu bolisiâu gwirio oedran, cynllunio herio 21, hyfforddiant i staff a staff drysau.

**Dylunio:** dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle, bydd cynllun y fynedfa yn galluogi staff a staff diogelwch i weld y rheiny sy'n dod i mewn i'r safle a'u herio o ran eu hoedran.

**Ffisegol:** cloeon drws magnetig a sganiau adnabod.

### **Cam 1: Cwblhau asesiad risg leol**

Dylid cwblhau'r asesiad risg drwy ymagwedd gam wrth gam. Gallai gweithredwyr hapchwarae asesu'r ardal leol yn gyntaf a nodi'r ffactorau risg perthnasol, yna asesu'r gweithrediad hapchwarae ac, yn olaf, asesu dyluniad y safle, yn fewnol ac yn allanol. Unwaith y nodir y ffactorau risg, dylid ystyried y mesurau rheoli lliniarol. Bydd y mesurau rheoli hyn naill ai eisoes ar waith neu bydd yn rhaid eu rhoi ar waith.

- Dylai aseswyr ddechrau drwy nodi'r ffactorau o risg leol o amgylch y safle. Bydd y ffactorau risg hyn yn amrywio o leoliad i leoliad felly mae deall nodweddion penodol yr ardal leol a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi'n bwysig. Bydd y defnydd o broffil llesiant a gwybodaeth leol yn gymorth.

### **Cam 2: Gweithrediad hapchwarae a dyluniad ffisegol**

Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gweithrediad hapchwarae, dylai'r aseswr ystyried y risgiau lleol a dderbynnir yn gyffredinol gan randdeiliaid ehangach a sut y gallai gweithrediad hapchwarae effeithio ar y risg honno.

Mae dyluniad ffisegol y safle yn ystyriaeth allweddol oherwydd gallai hyn gael effaith sylweddol ar y risg i'r amcanion trwyddedu. Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â dyluniad a chynllun safle, mae angen cyfeirio at ffactorau risg ardal leol a nodwyd eisoes i sicrhau nad yw'r dyluniad yn ychwanegu at y risg honno. Dylid ystyried y dyluniad, mewnol ac allanol, a nodi a chofnodi'r ffactorau risg penodol.

### **Cam 3: Mesurau rheoli**

Unwaith y nodwyd ffactorau risg, dylai'r aseswr geisio nodi mesurau rheoli a fyddai'n lliniaru'r risgiau a nodwyd, Bydd mesurau rheoli o'r fath yn berthnasol i un o dri chategori o fesurau rheoli a nodwyd uchod (systemau, dylunio a ffisegol). Bydd rhai ffactorau risg yn gofyn am gyfuno mesurau rheoli er mwyn lliniaru'r risg yn ddigonol.

### **Cam 4: Cynllun Gweithredu**

Unwaith y cwblhawyd yr asesiad, dylid cwblhau cynllun gweithredu fel y gall unrhyw gamau a nodwyd gael eu dogfennu a gosodir a chytunir ar ddyddiad ar gyfer cwblhau'r darn o waith gofynnol.

### **Asesiadau a gwblhawyd**

Rhaid rhoi'r mesurau rheoli ar waith ar y safle ac, os yw'n berthnasol, dylid hyfforddi staff ar sut i'w defnyddio neu eu hyfforddi ar y polisi neu'r weithdrefn newydd. Rhaid cadw'r asesiad a dylid ei adolygu pryd bynnag y bydd sbardun neu fel rhan o drefniant adolygu rheolaidd.

## **7 GWYBODAETH YCHWANEGOL**

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn neu'r broses ymgeisio gan y canlynol:

**Yr Is-adran Drwyddedu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Tŷ Penallta  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach  
CF82 7PG**

**Rhif ffôn: 01443 866750**

**E-bost: [trwyddedu@caerffili.gov.uk](mailto:trwyddedu@caerffili.gov.uk)**

**Mae gwybodaeth ar gael gan y canlynol hefyd:**

**Y Comisiwn Hapchwarae  
Victoria Square House  
Birmingham  
B2 4BP**

**Rhif ffôn: 0121 230 6666**

**Gwefan: [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk)**

**Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 100 Parliament Street,  
Llundain,  
SW1A 2BQ**

**Rhif ffôn: 020 7211 6200**

**Gwefan:**

**[Department for Digital, Culture, Media & Sport - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)**

## Atodiad 1

### YMGYNGOREION Y POLISI

CBSC – Aelodau Etholedig
CBSC – Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth priodol
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)
Y Comisiwn Hapchwarae
Heddlu Gwent
Y Gwasanaeth Tân
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y Bwrdd Iechyd
Cynghorau Cymuned a Thref
Yr Holl Ddeiliaid Trwydded Safle a Thystysgrif Safle Clwb
Y Cyhoedd – trwy'r wefan a datganiad i'r wasg
CBSC – Diogelwch Cymunedol
CBSC – Uned Polisi Corfforaethol
CBSC – Gwasnaethau Cyfreithiol
CBSC – Priffyrdd
CBSC – Iechyd yr Amgylchedd – Rheoli Llygredd
CBSC – Iechyd yr Amgylchedd – Bwyd ac Iechyd a Diogelwch
CBSC – Awdurdod Cyfrifol yr Awdurdod Trwyddedu
CBSC – Safonau Masnach
CBSC – Cynllunio
CBSC – Cydlynnydd Diogelu Plant
Cyngor ar Bopeth Casnewydd
Fforwm Trwyddedu Gwent

## Atodiad 2

### AWDURDODAU CYFRIFOL

### MANYLION CYSWLLT AWDURDODAU CYFRIFOL

Awdurdod Cyfrifol	Manylion Cyswllt
Y Comisiwn Hapchwarae	Victoria Square House Victoria Square Birmingham B2 4BP
HMRC	Timau Prosesu Tollau (Betio a Hapchwarae) BX9 1GL  Ffôn: 0300 322 7072 e-bost: <a href="mailto:nrubetting&amp;gaming@hmrc.gsi.gov.uk">nrubetting&amp;gaming@hmrc.gsi.gov.uk</a>
Yr Heddlu (Prif Swyddog yr Heddlu ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi)	Prif Swyddog yr Heddlu At Sylw'r Swyddog Trwyddedu Heddlu Gwent Pencadlys Adrannol 'C' Heol Coed Duon Pontllan-fraith Coed Duon NP12 2XA Ffôn: 01495 232253/232267 E-bost: <a href="mailto:LicensingCDIV@gwent.pnn.police.uk">LicensingCDIV@gwent.pnn.police.uk</a>
Yr Awdurdod Tân ac Achub (ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi)	Y Prif Swyddog Tân Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Parc Busnes Forest View Llantrisant CF72 8LX Ffôn: 01443 232713 E-bost: <a href="mailto:safety-east@SouthWales-fire.gov.uk">safety-east@SouthWales-fire.gov.uk</a>
Cynllunio (yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi)	Pennaeth Adfywio a Chynllunio Yr Is-adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Tredomen Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7WF  E-bost: <a href="mailto:cynllunio@caerffili.gov.uk">cynllunio@caerffili.gov.uk</a>

Awdurdod Cyfrifol	Manylion Cyswllt
<p>Iechyd yr Amgylchedd (Swyddogaeth statudol ar gyfer lleihau risg llygredd i'r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol gymaint â phosibl neu atal y risg honno.)</p>	<p>Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7PG</p> <p>E-bost: <a href="mailto:amgylchedd@caerffili.gov.uk">amgylchedd@caerffili.gov.uk</a></p>
<p>Diogelu Plant (Y corff sy'n cynrychioli'r rhai hynny sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed neu sydd â diddordeb mewn materion o'r fath, ac sy'n gymwys i gynghori arnynt.)</p>	<p>Cydlynnydd Diogleu Plant (Ar ran y Bwrdd Lleol Diogelu Plant) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach CF82 7PG Ffôn: 01443 864744 E-bost: <a href="mailto:srt@caerffili.gov.uk">srt@caerffili.gov.uk</a></p>

## Atodiad 3

### CYFYNGIADAU MYNEDIAD I SAFLEOEDD HAPCHWARAE

#### Casinos

- Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r safle fod o stryd;
- Ni chaniateir i unrhyw fynedfa i gasino fod o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
- Mae'n rhaid sicrhau nad yw unrhyw gwsmer yn gallu mynd i mewn i gasino'n uniongyrchol o safle arall, sy'n dal trwydded safle hapchwarae.

#### Canolfan Hapchwarae i Oedolion

- Mae'n rhaid sicrhau nad yw unrhyw gwsmer yn gallu mynd i mewn i'r safle'n uniongyrchol o unrhyw safle hapchwarae trwyddedig arall.

#### Siopau Betio

- Mae'n rhaid i'r fynedfa fod o stryd neu safle arall sydd â thrwydded safle betio;
- Ni chaniateir mynediad uniongyrchol o siop fetio i safle arall a ddefnyddir i fanwerthu nwyddau neu wasanaethau. I bob pwrpas, ni chaniateir mynedfa i siop fetio o siop o unrhyw fath ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi – byddai'n rhaid i'r ardal gyfan gael ei thrwyddedu.

#### Traciau

- **Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o:**
  - gasino;
  - canolfan hapchwarae i oedolion.

#### Safleoedd Bingo

- **Mae'n rhaid sicrhau nad yw unrhyw gwsmer yn gallu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o:**
  - casino;
  - canolfan hapchwarae i oedolion;
  - safle betio, heblaw am drac.

#### Canolfan Adloniant i Deuluoedd

- **Mae'n rhaid sicrhau nad yw unrhyw gwsmer yn gallu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o:**



- casino;
- canolfan hapchwarae i oedolion;
- safle betio, heblaw am drac.

Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y mater hwn, y bydd yr awdurdod hwn yn ei hystyried hefyd wrth wneud penderfyniadau.

## Atodiad 4

# Crynodeb o'r Darpariaethau Peiriannau fesul Adeilad

Categori Peiriant							
Math o eiddo	A	B1	B2	B3	B4	C	D
<b>Casino mawr</b> (cymhareb peiriant/bwrdd o 5-1 hyd at uchafswm)				Uchafswm o 150 o beiriannau Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriâu B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn cyfanswm terfyn o 150 (yn amodol ar gymhareb peiriant/bwrdd)			
<b>Casino bach</b> (cymhareb peiriant/bwrdd o 2-1 hyd at uchafswm)				Uchafswm o 80 o beiriannau Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategoriâu B i D (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn cyfanswm terfyn o 80 (yn amodol ar gymhareb peiriant/bwrdd)			
<b>Casino Deddf Cyn 2005</b> (dim cymhareb peiriant/bwrdd)				Uchafswm o 20 o beiriannau categorïau B i D (ac eithrio peiriannau B3A), neu unrhyw nifer o beiriannau C neu D yn lle hynny			
<b>Adeiladau betio a thraciau sy'n cael eu meddiannu gan bŵl betio</b>				Uchafswm o 4 peiriant categorïau B2 i D (ac eithrio peiriannau B3A)			
<b>Adeiladau Bingo<sup>1</sup></b>		Uchafswm o 20% o gyfanswm y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio ar safle categorïau B3 neu B4			Dim terfyn ar beiriannau categorïau C neu D		
<b>Canolfan hapchwarae i oedolion<sup>2</sup></b>		Uchafswm o 20% o gyfanswm y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio ar y safle categorïau B3 neu B4			Dim terfyn ar beiriannau categorïau C neu D		
<b>Canolfan adloniant drwyddedig i'r teulu<sup>3</sup></b>				Dim terfyn ar beiriannau categorïau C neu D			
<b>Canolfan adloniant i'r teulu (gyda thrwydded)<sup>3</sup></b>				Dim terfyn ar beiriannau Categori D			
<b>Sefydliad clwb neu lles glowyr (gyda thrwyddedau)<sup>4</sup></b>				Uchafswm o 3 pheiriant yng nghategoriâu B3A neu B4 i D			
<b>Adeilad cymwys trwyddedig i werthu alcohol</b>				1 neu 2 beiriant o categori C neu D awtomatig ar ôl hysbysu			
<b>Adeilad cymwys trwyddedig i werthu alcohol (gyda thrwydded peiriannau hapchwarae safle trwyddedig)</b>				Nifer y peiriannau categori C-D fel y nodir ar y drwydded			
<b>Ffair deithio</b>		Dim terfyn ar beiriannau Categori D					

<sup>1</sup> Mae trwyddedau safleoedd bingo yn caniatáu cynnig defnydd nifer o beiriannau hapchwarae categori B nad yw'n mynd dros 20% cyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae ar y safle. Pan roddwyd trwydded hapchwarae cyn 13 Gorffennaf 2013, maent yn caniatáu hyd at wyth peiriant hapchwarae categori B (Deddf Hapchwarae 2005 (Peiriannau Hapchwarae mewn Safleoedd Bingo) Gorchymyn 2009), neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, p'un bynnag sy'n fwy. Caiff peiriannau categori B mewn safleoedd bingo eu cyfyngu i is-gategoriâu peiriannau B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

<sup>2</sup> Caniateir i ganolfannau hapchwarae i oedolion gynnig nifer o beiriannau hapchwarae categori B nad yw'n mynd dros 20% cyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae ar y safle y gellid eu defnyddio ar y safle a pha nifer bynnag o beiriannau categorïau C a D. Pan roddwyd trwydded hapchwarae cyn 13 Gorffennaf 2013, caniateir iddynt gynnig hyd at bedwar peiriant hapchwarae categori B neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, p'un bynnag sy'n fwy. Caiff peiriannau categori B mewn safleoedd bingo eu cyfyngu i is-gategoriâu B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

<sup>3</sup> Safleoedd a ddefnyddir yn rhannol neu'n bennaf ar gyfer cynnig peiriannau hapchwarae yn unig a allai ddal hawlen peiriannau hapchwarae Canolfan Adloniant i Deuluoedd heb drwydded neu drwydded safle Canolfan Adloniant i Deuluoedd. Gellir ond gosod peiriannau hapchwarae mewn Canolfan Adloniant i Deuluoedd pan fydd trwydded Canolfan Adloniant i Deuluoedd mewn grym. Rhaid iddynt gael eu lleoli mewn ardal ar wahân i sicrhau gwahaniad a gallu goruchwylio peiriannau y gall oedolion yn unig eu chwarae. Nid oes gan yr awdurdod trwyddedu'r pŵer i osod terfyn ar nifer y peiriannau o dan hawlen Canolfan Adloniant i Deuluoedd.

<sup>4</sup> Caniateir i glybiau i aelodau a sefydliadau lles glowyr sydd â hawlen hapchwarae clwb neu hawlen peiriant clwb leoli cyfanswm o dri pheiriant categorïau B3A i D ond un peiriant B3A yn unig fel rhan o'r hawl hon.

<sup>5</sup> Caniateir i glybiau masnachol sydd â pheiriant clwb neu hawlenni hapchwarae gael cyfanswm o dri pheiriant categorïau B i D.

**RHESTR DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU A PHENDERFYNIADAU  
TRWYDDEDU**

<b>Materion i'w trin</b>	<b>Cyngor Llaw</b>	<b>Is-bwyllgor</b>	<b>Swyddogion</b>
<b>Polisi Hapchwarae tair blynedd</b>	X		
<b>Polisi i beidio â chaniatáu casinos</b>	X		
<b>Pennu Ffioedd – pan fo'n briodol</b>	X		
<b>Cais am Drwydded Safle</b>		<b>Sylwadau wedi'u cyflwyno a heb eu tynnu'n ôl</b>	<b>Dim sylwadau wedi'u cyflwyno/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl</b>
<b>Cais i amrywio trwydded</b>		<b>Sylwadau wedi'u cyflwyno a heb eu tynnu'n ôl</b>	<b>Dim sylwadau wedi'u cyflwyno/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl</b>
<b>Cais i drosglwyddo trwydded</b>		<b>Sylwadau wedi'u cyflwyno gan y Comisiwn</b>	<b>Dim sylwadau wedi'u cyflwyno gan y Comisiwn</b>
<b>Cais am ddatganiad dros dro</b>		<b>Sylwadau wedi'u cyflwyno a heb eu tynnu'n ôl</b>	<b>Dim sylwadau wedi'u cyflwyno/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl</b>
<b>Adolygu Trwydded Safle</b>		x	
<b>Diddymu trwydded safle am fethu â thalu'r ffi drwydded flynyddol</b>			x
<b>Cais am hawlenni hapchwarae mewn clybiau / peiriannau clybiau</b>		<b>Gwrthwynebiadau wedi'u cyflwyno (a heb eu tynnu'n ôl)</b>	<b>Dim gwrthwynebiadau wedi'u cyflwyno / gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl</b>
<b>Canslo hawlenni hapchwarae mewn clybiau / peiriannau clybiau</b>		x	

<b>Materion i'w trin</b>	<b>Cyngor Llawn</b>	<b>Is-bwyllgor</b>	<b>Swyddogion</b>
<b>Ceisiadau am hawlenni eraill</b>		<b>Gwrthwynebiadau wedi'u cyflwyno (a heb eu tynnu'n ôl)</b>	<b>Dim gwrthwynebiadau wedi'u cyflwyno / gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl</b>
<b>Canslo hawlenni peiriannau hapchwarae safle trwyddedig</b>			x
<b>Ystyried hysbysiad defnydd dros dro</b>			x
<b>Penderfyniad i roi gwrth-hysbysiad mewn perthynas â hysbysiad defnydd dros dro</b>		x	

## Atodiad 6

### DIFFINIADAU

SYLWER: Yn y Polisi hwn, mae'r diffiniadau canlynol wedi'u cynnwys i esbonio termau penodol a geir yn y Ddeddf ac felly yn y Datganiad Polisi Trwyddedu. Mewn rhai achosion, talfyriad ydynt o'r hyn a nodir yn Neddf Hapchwarae 2005 neu ddehongliad o'r termau hynny. I gael diffiniad llawn o'r termau a ddefnyddir, rhaid i'r darllenydd gyfeirio at Ddeddf Hapchwarae 2005.

Mae 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu fel y'i diffinnir gan Ddeddf Hapchwarae 2005.

Mae 'y Ddeddf' yn golygu Deddf Hapchwarae 2005.

Mae 'y Fwrdeistref Sirol' yn golygu Bwrdeistref Sirol Caerffili.

'Yr Awdurdod Trwyddedu' yw'r awdurdod y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl/yn rhannol yn ei ardal. Mae'r Awdurdod Trwyddedu (sef yr awdurdod cyhoeddi) yn awdurdod cyfrifol hefyd.

'Y Comisiwn Hapchwarae' yw corff a sefydlwyd gan y Llywodraeth fel y rheoleiddiwr unedig ar gyfer hapchwarae, gan ddisodli'r Bwrdd Hapchwarae.

Mae 'Cyfarwyddyd' yn golygu Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae.

Mae 'LCCP' yn golygu'r Amodau a'r Cod Ymarfer Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae.

Mae 'Awdurdod Cyfrifol' yn golygu corff cyhoeddus y mae'n rhaid rhoi gwybod iddo am geisiadau penodol am drwyddedau safle a hawlenni, ac sydd â hawl i wneud sylwadau ar unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

Mae 'plant' yn golygu unigolion iau nag 16 oed.

Mae 'pobl ifanc' yn golygu unigolion sy'n 16 oed a hŷn ond yn iau na 18 oed.

Mae 'Amodau Gorfodol' yn golygu amod penodedig a ddarperir gan reoliadau i'w osod ar drwyddedau safle.

Mae 'Amodau Diofyn' yn golygu amod penodedig a ddarperir gan reoliadau i'w osod ar drwydded oni bai y caiff ei eithrio gan y Cyngor.

Mae 'safle' yn golygu unrhyw le, gan gynnwys llong neu adeiledd symudol.

# **ATODIAD 7 – Cronfa o Amodau Enghreifftiol Mandadol, Diofyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer Trwyddedau Safleoedd Gamblo**

## **1. Cyflwyniad**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r Awdurdod Trwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n gyfrifol am ystyried ceisiadau am drwyddedau safleoedd sy'n cynnig cyfleusterau gamblo o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a phenderfynu arnynt. Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hefyd rôl o sicrhau y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r trwyddedau.

Yn y Ddeddf mae tri amcan trwyddedu sy'n arwain y ffordd y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cynnal ei swyddogaethau a'r ffordd y mae gweithredwyr gamblo'n cyflawni eu gweithgareddau. Dyma nhw:

- atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored;
- amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio wrth gamblo.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Trwyddedu i ganiatáu gamblo i'r graddau ei fod yn credu ei fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Effaith y ddyletswydd hon yw bod yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu weithredu ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n ceisio rheoleiddio gamblo trwy ddefnyddio ei bwerau, er enghraifft rhoi amodau ynghlwm wrth drwyddedau, cymedroli ei effaith ar yr amcanion trwyddedu yn hytrach na dechrau drwy ei atal yn gyfan gwbl.

Mae Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Mandadol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) 2007 yn gosod amodau ar bob categori trwydded safle gamblo dan y Ddeddf. Er hwylustod ac er mwyn sicrhau dogfen gryno sy'n cynnwys yr holl amodau perthnasol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cynnwys amodau mandadol a diofyn.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd wedi datblygu cronfa o amodau enghreifftiol i gynorthwyo gweithredwyr gamblo, awdurdodau cyfrifol a phartion â diddordeb wrth ystyried amodau i ymdrin â materion a phryderon penodol. Bydd yr amodau hyn hefyd yn annog dull cyson wrth ddrafftio a gosod amodau ar drwyddedau safleoedd.

Bydd gweithredwyr gamblo yn nodi mesurau sy'n lliniaru'r risg i niweidio'r amcanion trwyddedu yn eu hasesiad risg lleol ar gyfer pob safle penodol. Bydd yr amodau enghreifftiol yn cynorthwyo darpar ddeiliaid trwydded a'r rhai presennol i nodi a dewis amodau penodol fyddai'n cadarnhau'r mesurau arfaethedig hyn yn y fframwaith rheoleiddio.

Ar ôl iddynt wneud cais, caiff awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb eu hannog i ymgysylltu â'r ymgeisydd os ydynt yn ystyried cyflwyno sylw i'w cais. Fel hyn, bydd modd cynnal trafodaethau am eu pryderon a chael cytundeb ar amodau penodol er mwyn rhoi sylw iddynt.

Nid yw'r amodau enghreifftiol yn y ddogfen hon yn rhestr unigryw na chynhwysfawr o amodau y gellir eu cynnwys ar drwydded safle. Nid yw'n cyfyngu ymgeisydd, awdurdod cyfrifol, na phartïon eraill â diddordeb rhag cynnig amodau amgen. Ni fyddai, ychwaith, yn atal Is-bwyllgor Trwyddedu rhag gosod amod rhesymol ar drwydded a roddir ac y mae'n ei hystyried yn briodol er mwyn ceisio caniatáu gamblo dan adran 153 y Ddeddf.

Dyma rifyn cyntaf o Amodau Enghreifftiol, Mandadol, Diofyn a Chaerffili ar gyfer Trwyddedau Safleoedd Gamblo yr ydym wedi'u cynhyrchu. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Caerffili.gov.uk.

### Amodau Mandadol

Amodau a bennir yn Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Mandadol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) 2007 (Rheolau 2007) yw amodau mandadol. Isod rhestrir yr amodau mandadol ar gyfer pob categori trwyddedau safleoedd yn amodau gyda chyfeirnod amod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei hun. Mae'r rheoliad, yr atodlen, y rhan a'r paragraff penodol o ran lleoliad yr amodau hynny yn Rheoliadau 2007, ar gael i'r dde o bob un o'r amodau mandadol.

Caiff yr amodau mandadol i hyn eu defnyddio gyda chategori perthnasol y drwydded safle ac ni ellir eu dileu na'u hamrywio mewn unrhyw ffordd.

Pan fo amod mandadol, fel y nodir yn Rheolau 2007, yn cyfeirio at baragraff sy'n amod ar wahân yn y rhan honno o'r atodlen, rydym wedi defnyddio rhif y paragraff hwnnw â chyfeirnod amod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel ei fod yn amlwg pa amod y cyfeirir ato.

### Adeiladau wedi'u Trosi'n Gasinos

Rhaid i'r crynodeb o delerau ac amodau'r drwydded safle a roddwyd dan adran 164 (1)(c) Ddeddf 2005 gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle	Rheoliad 3(2)
Rhaid cadw gosodiad y safle yn unol â'r cynllun.	Rheoliad 3(3)
Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer – a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid, na b) gwerthu tocynnau mewn loteri arall lle gwaherddir, fel arall, werthu tocynnau ar y safle.	Rheoliad 3(4)
Rhaid i'r brif fynedfa i'r safle fod oddi ar stryd.	Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 1(1)
Ni cheir mynediad i'r safle o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant, pobl ifanc neu gan y ddau.	Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 1(2)



<p>Ni chaniateir mynediad i gwsmer i'r safle yn syth o safle arall y rhoddwyd trwydded iddo dan Ran 8 y Ddeddf, neu y rhoddwyd caniatâd iddo dan Atodlen 10, 12 neu 13 y Ddeddf.</p>	<p>Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 1(3)</p>
<p>Rhaid cadw bwloch o ddau fetr o leiaf rhwng bwrdd hapchwarae cyffredin ac offer, cyfarpar neu strwythur arall a ddefnyddir gan berson i gamblo yn y safle.</p>	<p>Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 2</p>
<p>Ni chaniateir ar unrhyw adeg i fwy na 40 o safleoedd chwaraewyr ar wahân gael eu defnyddio mewn perthynas â byrddau hapchwarae cwbl awtomataidd.</p>	<p>Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 3</p>
<p>1. Rhaid i reolau pob math o gêm casino sydd ar gael i'w chwarae yn y safle gael eu harddangos mewn lle amlwg lle ceir y byrddau hapchwarae ac ym manau gamblo eraill y safle y gall cwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio cyfleusterau ar gyfer gamblo fynd iddynt yn ddirwystr.</p> <p>2. Gellir bodloni'r amod yn is-baragraff (1) trwy -</p> <p>a) arddangos arwydd clir a darllenadwy yn nodi'r rheolau; neu</p> <p>b) sicrhau bod tafleenni neu ddeunydd ysgrifenedig arall sy'n cynnwys y rheolau ar gael i gwsmeriaid.</p>	<p>Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 4</p>
<p>Rhaid i beiriant codi arian sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y safle fod mewn man y mae'n rhaid i gwsmer sy'n dymuno ei ddefnyddio rhoi'r gorau i gamblo wrth fwrdd gemau, peiriant hapchwarae neu beiriant betio er mwyn gwneud hynny.</p>	<p>Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 5</p>
<p>Rhaid arddangos rhybudd mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle yn nodi na chaniateir mynediad i'r safle i unrhyw un dan 18 oed.</p>	<p>Rheoliad 8, Atodlen1, Rhan 5, Paragraff 1</p>
<p>Bydd y Paragraff hwn yn berthnasol i safle sydd â man gamblo nad yw ei lawr yn ddim llai na 200 m<sup>2</sup>.</p> <p>Wrth bennu arwynebedd llawr y man gamblo, rhaid ystyried yr holl fannau lle darperir cyfleusterau ar gyfer gamblo yn y safle.</p> <p>Rhaid i'r safle fod â man lle nad oes gamblo ac sydd ag arwynebedd llawr dim llai na 10% o arwynebedd llawr y man gamblo.</p> <p>Gallai un neu fwy o fannau ar y safle fod yn fan lle nad oes gamblo.</p> <p>Gellir ystyried cynteddau a chyfleusterau toiled wrth gyfrifo'r man lle nad oes gamblo; ond rhaid i'r man hwn gynnwys mwy na chynteddau a chyfleusterau toiled yn unig.</p> <p>Ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo yn y man lle nad oes gamblo.</p> <p>Ar unrhyw adeg pan ddarperir cyfleusterau ar gyfer gamblo yn y safle, rhaid sicrhau bod cyfleusterau hamdden ar gael i'w defnyddio gan gwsmeriaid yn y safle ym mhob man sydd ar wahân, yn cynnwys y man lle nad oes gamblo,</p>	<p>Rheoliad 8, Atodlen1, Rhan 5, Paragraff 2</p>

ac eithrio'r cynteddau a'r cyfleusterau toiled y cyfeirir atynt yn is-baragraff (5),	
--	--

## Bingo

Rhaid i'r crynodeb o delerau ac amodau trwydded y safle a roddwyd dan adran 164 (1)(c) Ddeddf 2005 gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle.	Rheoliad 3(2)
Rhaid cadw gosodiad y safle yn unol â'r cynllun.	Rheoliad 3(3)
Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer – a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid, na b) gwerthu tocynnau mewn loteri arall lle gwaherddir, fel arall, werthu tocynnau ar y safle.	Rheoliad 3(4)
Rhaid i hysbysiad yn nodi na chaniateir i unrhyw un dan 18 oed chwarae bingo yn y safle gael ei arddangos mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle.	Rheoliad 10, Atodlen 2, Rhan 1, Paragraff 1
Ni chaniateir mynediad i'r safle i gwsmer yn syth o safle arall lle rhoddwyd un o'r caniatadau a ganlyn– a) trwydded safle casino; b) trwydded safle canolfan hapchwarae i oedolion c) trwydded safle betio ac eithrio trwydded safle traciau; a	Rheoliad 10, Atodlen 2, Rhan 1, Paragraff 2
Bydd y paragraff hwn yn berthnasol pan fydd deiliad y drwydded yn caniatáu i blant neu bobl ifanc neu i'r ddau ddod i mewn i'r safle, a bod peiriannau hapchwarae Categori B neu C ar gael i'w defnyddio yn y safle.  Rhaid i bob rhan o'r safle lle ceir peiriannau hapchwarae categori B ac C -  a) fod wedi ei gwahanu oddi wrth weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol o ran atal mynediad ac eithrio gan fynedfa a ddyluniwyd at y diben; b) cael ei goruchwyllo bob amser i sicrhau nad yw plant neu bobl ifanc neu'r ddau yn dod i'r man hwnnw; a c) cael ei threfnu yn y fath fodd sy'n sicrhau bod y personau a grybwyllir yn is-baragraff (3) yn gallu gweld y cyfan o'r rhan honno.  Mae'r cyfeiriad at oruchwyliaeth yn y paragraff hwn yn golygu goruchwyliaeth gan –  a) un neu fwy o bobl y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau nad yw plant neu bobl ifanc neu'r ddau yn dod i'r man hwnnw; neu b) camerâu cylch cyfyng sy'n cael eu monitro gan un neu fwy o bobl y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau nad yw plant neu bobl ifanc neu'r ddau yn dod i mewn i'r man hwn.  Rhaid i hysbysiad yn nodi na chaniateir mynediad i'r man hwn i unrhyw un dan 18 oed gael ei arddangos mewn lle amlwg wrth fynedfa unrhyw ran o'r safle lle mae peiriannau hapchwarae Categori B neu C ar gael i'w defnyddio.  Yn achos tâl am fynediad i'r safle, rhaid arddangos rhybudd o'r tâl hwnnw mewn lle amlwg ym mhrif fynedfa'r safle.	Rheoliad 10, Atodlen 2, Rhan 1, Paragraff 3

<p>Yn achos taliadau eraill mewn perthynas â hapchwarae, rhaid arddangos rhybudd yn nodi'r wybodaeth yn is-baragraff (3) yn y prif bwynt y mae'n rhaid talu'r tâl.</p> <p>Rhaid i'r hysbysiad yn is-baragraff (2) gynnwys y wybodaeth a ganlyn -</p> <p>a) cost (mewn arian) pob cerdyn gêm (neu set o gardiau gêm) sy'n daladwy gan unigolyn mewn perthynas â gêm o bingo;</p> <p>b) mewn perthynas â phob cerdyn gêm (neu set o gardiau gêm) y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) y swm a godir trwy ffi chwarae am hawl i chwarae'r gêm honno; a</p> <p>c) datganiad i'r perwyl y gellir hepgor y ffi chwarae gyfan neu ran ohoni yn ôl disgrisiwn y sawl sy'n ei chodi.</p> <p>Gellir arddangos yr hysbysiad ar ffurf electronig.</p> <p>Nid yw cyfeiriad yn y paragraff hwn at dâl mewn perthynas â hapchwarae yn cynnwys swm a delir am gyfle i ennill un neu fwy o wobrau mewn gêm hapchwarae y mae adran 288 Ddeddf 2005 (ystyr "hapchwarae am wobrau") yn berthnasol iddi.</p>	
<p>Rhaid i reolau pob math o gêm sydd ar gael i'w chwarae yn y safle, ac eithrio gemau a chwaraeir ar beiriannau hapchwarae, fod ar gael i'r cwsmeriaid yn y safle</p> <p>Gellir bodloni'r amod yn is-baragraff (1) trwy -</p> <p>a) arddangos arwydd clir yn nodi'r rheolau</p> <p>b) sicrhau bod taflenni neu ddeunydd ysgrifenedig arall sy'n cynnwys y rheolau ar gael, neu</p> <p>c) chwarae arweiniad clyweled i'r rheolau cyn dechrau gêm o fingo.</p>	<p>Rheoliad 10, Atodlen2, Rhan 1, Paragraff 5</p>
<p>Rhaid i beiriant codi arian sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y safle fod mewn man y mae'n rhaid i gwsmer sy'n dymuno ei ddefnyddio rhoi'r gorau i gamblo er mwyn gwneud hynny.</p>	<p>Rheoliad 10, Atodlen 2, Rhan 1, Paragraff 6</p>

### Traciau Betio

<p>Rhaid i'r crynodeb o delerau ac amodau trwydded y safle a roddwyd dan adran 164 (1)(c) Ddeddf 2005 gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle.</p>	<p>Rheoliad 3(2)</p>
<p>Rhaid cadw gosodiad y safle yn unol â'r cynllun.</p>	<p>Rheoliad 3(3)</p>
<p>Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer –</p> <p>a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid na,</p> <p>b) gwerthu tocynnau mewn loteri arall lle gwaherddir, fel arall, werthu tocynnau ar y safle.</p>	<p>Rheoliad 3(4)</p>
<p>Ni chaniateir mynediad i'r safle i gwsmer yn syth o safle arall lle rhoddwyd un o'r caniatadau a ganlyn–</p> <p>a) trwydded safle casino;</p> <p>b) trwydded safle canolfan hapchwarae i oedolion</p>	<p>Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 1, Paragraff 1</p>
<p>Rhaid i hysbysiad yn nodi na chaniateir i unrhyw un dan 18 oed betio yn y safle gael ei arddangos mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle.</p>	<p>Rheoliad</p>

	16, Atodlen 6, Rhan 1, Paragraff 2
Rhaid arddangos y telerau y gellid gosod bet arnynt mewn lle amlwg yn y safle y gall cwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio cyfleusterau ar gyfer betio fynd iddo'n ddirwystr.	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 1, Paragraff 3
Rhaid i ddeiliad trwydded y safle wneud trefniadau i sicrhau bod gweithredwyr betio sy'n cael eu derbyn i'r safle at ddibenion derbyn betiau - a) yn gweithredu dan drwydded weithredu ddilys; a b) yn gallu derbyn betiau o'r fath yn unol â -  (i) yr amodau a osodir dan adrannau 92 (trwydded gweithredu betiau cyffredinol) neu 93 (trwydded gweithredu betiau pyllau) Deddf 2005, neu (ii) awdurdodiad dan adran 94	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 1, Paragraff 4
Rhaid i ddeiliad trwydded y safle wneud trefniadau i sicrhau y cymerir camau rhesymol i symud person o'r safle y canfyddir ei fod yn derbyn betiau yn y safle ac eithrio yn unol â Deddf 2005.	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 1, Paragraff 5
Rhaid i beiriant codi arian sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y safle fod mewn man y mae'n rhaid i gwsmer sy'n dymuno ei ddefnyddio rhoi'r gorau i gamblo er mwyn gwneud hynny.	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 1, Paragraff 6
<b>Amodau mandadol ynghlwm wrth drwyddedau safleoedd traciau mewn perthynas â safleoedd sy'n draciau rasio cŵn</b>  Yr unig amser y caniateir gweithredu cyfansymiwr ar y safle yw pan - a) fydd y cyhoedd yn cael dod i'r safle i wyllo'r rasys cŵn a phan nad oes digwyddiadau chwaraeon eraill yn cael eu cynnal yn y safle; a b) byddir yn ymgymryd â thrafodion betio ar rasys cŵn sy'n cael eu cynnal yn y safle.	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 3, Paragraff 1
Unrhyw adeg pan ddefnyddir y cyfansymiwr yn gyfreithlon yn y safle- a) ni chaniateir i weithredwr betio na chynorthwydd gweithredwr betio ei eithrio o'r safle yn unig oherwydd ei fod yn bwriadu derbyn neu drafod betiau ar y safle; a b) bydd lle ar gael yn y safle i weithredwyr betio a chynorthwywyr gweithredwyr betio lle gallant dderbyn a thrafod betiau mewn cysylltiad â rasys cŵn a gynhelir ar y safle y diwrnod hwnnw.  Nid yw'r paragraff hwn yn rhagfarnu adran 180 Deddf 2005 (betio pyllau ar rasys cŵn).	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 3, Paragraff 2
At ddibenion y rhan hon, ystyr "cyfansymiwr" yw'r cyfarpar ar gyfer betio a adwaenir fel cyfansymiwr neu <i>pari mutuel</i> , neu beiriant neu offeryn betio arall o natur debyg, p'run a yw yn un mecanyddol ai peidio.	Rheoliad 16, Atodlen 6, Rhan 3, Paragraff 3

## Betio (Arall)

Rhaid i'r crynodeb o delerau ac amodau trwydded y safle a roddwyd dan adran 164 (1)(c) Ddeddf 2005 gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle.	Rheoliad 3(2)
Rhaid cadw gosodiad y safle yn unol â'r cynllun.	Rheoliad

	3(3)
Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer – a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid, na b) gwerthu tocynnau mewn loteri arall lle gwaherddir, fel arall, werthu tocynnau ar y safle.	Rheoliad 3(4)
Rhaid i hysbysiad yn nodi na chaniateir mynediad i'r safle i unrhyw un dan 18 oed gael ei arddangos mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle.	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 1
1. Rhaid cael mynediad i'r safle o stryd neu o safle arall sydd â thrwydded safle betio. 2. Heb ragfarnu is-baragraff (1), ni fydd modd cael mynediad uniongyrchol rhwng y safle a safleoedd eraill a ddefnyddir i fanwerthu nwyddau neu wasanaethau	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 2
Yn ddarostyngedig i unrhyw beth a ganiateir yn rhinwedd Deddf 2005, neu a wneir yn unol â'r pedwar amod isod, ni chaniateir defnyddio'r safle at unrhyw bwrpas ac eithrio ar gyfer darparu cyfleusterau ar gyfer betio	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 3
Rhaid i beiriant codi arian sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y safle fod mewn man y mae'n rhaid i gwsmer sy'n dymuno ei ddefnyddio adael peiriant hapchwarae neu beiriant betio er mwyn gwneud hynny.	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 4
Ni chaniateir defnyddio yn y safle gyfarpar sy'n sicrhau bod gwybodaeth neu ddeunydd arall ar gael ar ffurf synau neu ddelweddau gweledol, ac eithrio cyfarpar a ddefnyddir at y dibenion a ganlyn - a) cyfleu gwybodaeth am ddigwyddiadau chwaraeon, neu roi sylw iddynt, gan gynnwys -  (i) gwybodaeth sy'n ymwneud â betio ar ddigwyddiad o'r fath; ac (ii) mater neu wybodaeth arall, gan gynnwys hysbyseb, sy'n atodol i ddigwyddiad o'r fath; b) cyfleu gwybodaeth sy'n ymwneud â betio ar ddigwyddiad (gan gynnwys canlyniad y digwyddiad) y gallai trafodion betio gael eu cynnal neu fod wedi eu cynnal ar y safle.	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 5
Ni chaniateir gwerthu na chynnig cyhoeddiadau, ac eithrio cyfnodolion rasio neu gyhoeddiadau betio arbenigol, i'w gwerthu yn y safle.	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 6
Ni chaniateir darparu na chaniatáu cerddoriaeth, dawnsio nac adloniant arall yn y safle, ac eithrio adloniant a ddarperir yn unol â Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 5	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 7
Ni chaniateir yfed alcohol yn y safle ar unrhyw adeg pan ddarperir cyfleusterau gamblo yn y safle  Rhaid arddangos rhybudd mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle yn nodi'r amod yn is-baragraff (1).	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 8
Rhaid i hysbysiad sy'n nodi'r telerau lle gwahoddir cwsmeriaid i fetio yn y safle gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle y mae gan gwsmeriaid fynediad di-rwystr iddo.	Rheoliad 14, Atodlen 5, Rhan 1, Paragraff 9

## Canolfannau Hapchwarae i Oedolion

Rhaid i'r crynodeb o delerau ac amodau trwydded y safle a roddwyd dan adran 164 (1)(c) Ddeddf 2005 gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle.	Rheoliad 3(2)
Rhaid cadw gosodiad y safle yn unol â'r cynllun.	Rheoliad 3(3)
Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer –  a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid, na b) gwerthu tocynnau mewn loteri arall lle gwaherddir, fel arall, werthu tocynnau ar y safle.	Rheoliad 3(4)
Rhaid i hysbysiad yn nodi na chaniateir mynediad i'r safle i unrhyw un dan 18 oed gael ei arddangos mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle.	Rheoliad 12, Atodlen 3, Paragraff 1
Ni chaniateir mynediad i'r safle i gwsmer yn syth o safle arall y rhoddwyd trwydded iddo dan Ran 8 y Ddeddf, neu y rhoddwyd caniatâd iddo dan Atodlen 10, 12 neu 13 y Ddeddf.	Rheoliad 12, Atodlen 3, Paragraff 2
Rhaid i beiriant codi arian sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y safle fod mewn man y mae'n rhaid i gwsmer sy'n dymuno ei ddefnyddio roi'r gorau i gamblo wrth beiriant hapchwarae er mwyn gwneud hynny.	Rheoliad 12, Atodlen 3, Paragraff 3
1. Ni chaniateir yfed alcohol yn y safle ar unrhyw adeg pan ddarperir cyfleusterau gamblo yn y safle  2. Rhaid arddangos rhybudd yn nodi'r amod yn is-baragraff (1) mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle.	Rheoliad 12, Atodlen 3, Paragraff 4

### Canolfannau Adloniant i Deuluoedd

Rhaid i'r crynodeb o delerau ac amodau trwydded y safle a roddwyd dan adran 164 (1)(c) Ddeddf 2005 gael ei arddangos mewn lle amlwg yn y safle.	Rheoliad 3(2)
Rhaid cadw gosodiad y safle yn unol â'r cynllun.	Rheoliad 3(3)
Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer –  a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid, na b) gwerthu tocynnau mewn loteri arall lle gwaherddir, fel arall, werthu tocynnau ar y safle.	Rheoliad 3(4)
Ni chaniateir mynediad i gwsmer i mewn i'r safle yn syth o safle arall lle rhoddwyd un o'r caniatadau a ganlyn–  a) trwydded safle casino; b) trwydded safle canolfan hapchwarae i oedolion c) trwydded safle betio ac eithrio trwydded safle lle ceir trac; a	Rheoliad 13, Atodlen 4, Rhan 1
Rhaid i beiriant codi arian sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y safle fod mewn man y mae'n rhaid i gwsmer sy'n dymuno ei ddefnyddio roi'r gorau i gamblo wrth beiriant hapchwarae er mwyn gwneud hynny.	Rheoliad 13, Atodlen 4, Rhan 2
Rhaid i unrhyw ran o'r safle lle ceir peiriannau hapchwarae categori C -  a) fod wedi ei gwahanu oddi wrth weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol o ran atal mynediad, ac eithrio gan fynedfa a ddyluniwyd at y diben; b) gael ei goruchwyllo bob amser i sicrhau nad yw plant neu bobl ifanc neu'r ddau yn dod i'r man hwnnw; a	Rheoliad 13, Atodlen 4, Rhan 3

<p>c) gael ei threfnu yn y fath fodd sy'n sicrhau bod y personau a grybwyllir yn is-baragraff (3) yn gallu gweld y cyfan o'r rhan honno.</p> <p>Mae'r cyfeiriad at oruchwyliaeth yn y paragraff hwn yn golygu goruchwyliaeth gan –</p> <p>a) un neu fwy o bobl y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau nad yw plant neu bobl ifanc neu'r ddau yn dod i'r man hwn; neu</p> <p>b) camerâu cylch cyfyng sy'n cael eu monitro gan un neu fwy o bobl y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau nad yw plant neu bobl ifanc neu'r ddau yn dod i mewn i'r man hwn.</p> <p>Rhaid i hysbysiad yn nodi na chaniateir mynediad i unrhyw un dan 18 oed i'r man hwn gael ei arddangos mewn lle amlwg wrth fynedfa unrhyw ran o'r safle lle mae peiriannau hapchwarae Categori C ar gael i'w defnyddio.</p>	
<p>1. Ni chaniateir yfed alcohol yn y safle ar unrhyw adeg pan ddarperir cyfleusterau gamblo yn y safle</p> <p>2. Rhaid arddangos rhybudd yn nodi'r amod yn is-baragraff (1) mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i'r safle.</p>	<p>Rheoliad 13, Atodlen 4, Rhan 4</p>

## Amodau Diofyn

Amodau a bennir yn Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Mandadol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) 2007 (y Rheoliadau) yw amodau diofyn. Rhestrir isod yr amodau diofyn ar gyfer pob categori trwyddedau safle yn amodau gyda chyfeirnod amodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei hun a'r rheoliad, Atodlen, Rhan a'r paragraff penodol lle mae'r amodau hynny yn y rheoliadau.

Caiff yr amodau diofyn hyn eu defnyddio yng nghategori perthnasol y drwydded safle oni bai bod yr ymgeisydd neu'r trwyddedai'n nodi'n benodol bod yr amodau diofyn yn cael eu dileu yn eu cais newydd neu eu cais amrywio.

Pan fo amod diofyn, fel y nodir yn y rheoliad, yn cyfeirio at baragraff sy'n amod ar wahân yn y rhan honno o'r atodlen, nodwn rif cyfeirnod perthnasol amod Caerffili yn lle rhif y paragraff hwnnw.

## Adeiladau wedi'u Trosi'n Gasinos

<p>Ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle ar unrhyw ddiwrnod rhwng 6am a chanol dydd.</p>	<p>Rheoliad 9, Atodlen 1, Rhan 6</p>
--	--

## Bingo

<p>Yn ddarostyngedig i'r amod isod, ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle rhwng hanner nos a 9am.</p>	<p>Rheoliad 11, Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 1</p>
<p>Ni fydd yr amod uchod yn berthnasol i sicrhau bod peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio.</p>	<p>Rheoliad 11, Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 2</p>

## Traciau Betio

Yn ddarostyngedig i amod Rheoliad 11, Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 1, ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle rhwng 10pm un diwrnod a 7am y diwrnod canlynol.	Rheoliad 17, Atodlen 6, Rhan 4, Paragraff 1
Nid yw'r gwaharddiad yn Rheoliad 11, Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 1 yn berthnasol ar ddyddiau pan gynhelir digwyddiadau chwaraeon ar y safle. Bryd hynny, gellid cynnal trafodion gamblo unrhyw adeg yn ystod y diwrnod hwnnw.	Rheoliad 17, Atodlen 6, Rhan 4, Paragraff 2

## Betio (Arall)

Ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle rhwng 10pm un diwrnod a 7am y diwrnod canlynol.	Rheoliad 15, Atodlen 5, Rhan 2
---	--------------------------------

## Amodau Enghreifftiol

Gall ymgeisydd trwydded safle newydd, datganiad dros dro neu ddeiliaid trwydded sy'n amrywio eu trwydded ddefnyddio'r amodau enghreifftiol a ganlyn. Gall yr ymgeisydd neu'r trwyddedai ddewis yr amodau y maent yn teimlo fydd yn eu galluogi i ddangos sut y byddant yn sicrhau y bydd y safle yn gweithredu fel na fyddir yn cael effaith ar yr amcanion trwyddedu.

Argymhellir gweithredwyr gamblo yn ystod eu proses asesu risg leol i nodi mesurau rheoli, megis amodau i liniaru effaith y safle hwnnw ar yr amcanion trwyddedu. Gellir dewis yr amodau enghreifftiol hyn i roi sylw i risg yr effeithiau a nodir yn yr asesiadau hyn.

Gall awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb ddefnyddio'r amodau hyn, hefyd, wrth gyflwyno sylwadau ar geisiadau a gyflwynir i'r Awdurdod Trwyddedu. Wrth benderfynu ar geisiadau, bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn rhoi sylw i'r amodau hyn a gall ddewis ychwanegu un neu fwy o amodau neu amrwyiadau ohonynt yn dibynnu ar y pryderon a godir yn ystod y broses benderfynu.

Nid cael eu defnyddio fel amodau cyffredinol i bob trwydded safle yw bwriad amodau enghreifftiol. Efallai y bydd yn ymddangos o'r rhestr bod yr amodau'n ailadroddus, ond mae gwahaniaethau cynnil, felly, cynghorir gweithredwyr gamblo, awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb i ddod o hyd i'r amod mwyaf priodol i liniaru'r risg a nodir.

Nid yw'r amodau enghreifftiol a nodir yn yr adran hon yn rhestr gynhwysfawr a gellir creu fersiynau newydd neu ddiwygiedig o amodau enghreifftiol i fodloni gofynion penodol y cais hwnnw.

Mae'r amodau enghreifftiol wedi'u rhoi dan benawdau pwnc cyffredinol i gynorthwyo wrth nodi amodau penodol a allai roi sylw i faterion penodol a godir. Wrth ochr pob amod dangosir cyfeiriad at yr amcan trwyddedu perthnasol y maent yn ymwneud ag ef. Y codau a ddefnyddir ar gyfer yr amcanion trwyddedu yw:

**CD** - atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.

**FO** - sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored.

**CV** - gwarchod plant a phobl sy'n agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio wrth gamblo.



## Oriau

- Ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo ar y safle rhwng yr oriau [nodwch yr amser] un diwrnod a [nodwch yr amser] y diwrnod canlynol. **CD, FO a CV**
- Ni chaniateir darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo yn y safle unrhyw ddiwrnod rhwng yr oriau [nodwch yr amser] a [nodwch yr amser]. **CD, FO a CV**
- Ni chaniateir i'r safle ddarparu cyfleusterau gamblo rhwng yr oriau [nodwch yr amser] a [nodwch yr amser]. **CD, FO a CV**
- Ni chaniateir mynediad i bobl i'r safle nac iddynt ddychwelyd iddo ar ôl [nodwch yr amser]. **CD a CV**

## Camerâu Cylch Cyfyng

Rhaid i'r lleoliad osod a chynnal system camerâu cylch cyfyng gynhwysfawr yn y safle a ddylai gynnwys, o leiaf:

- yr holl fynedfeydd i'r safle ac allanfeydd oddi yno, fel bod modd adnabod pob person sy'n dod i mewn, a hynny dan unrhyw olau.
- y rhannau o'r safle y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt (ac eithrio toiledau)
- peiriannau hapchwarae a'r cownter.
- Rhaid i'r system camerâu cylch cyfyng gofnodi'n barhaus tra bo'r lleoliad ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedig a phob amser pan fydd cwsmeriaid yn aros ar y safle. Rhaid cadw pob recordiad am o leiaf dri deg ac un diwrnod gyda'r dyddiad a'r amser yn weladwy. Trefnir recordiadau ar unwaith gan aelod o staff i'w trosglwyddo i'r Heddlu neu i swyddog awdurdodedig wedi iddynt ofyn amdanynt. **CD**
- Rhaid i aelod o staff o'r safle sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system camerâu cylch cyfyng fod ar y safle bob amser pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod o staff hwn yn gallu trefnu i'r Heddlu weld data neu luniau diweddar pan ofynnir amdanynt, gan oedi cyn lleied â phosibl. **CD**
- Rhaid cael [nodwch y nifer] camera allanol fydd yn rhoi delweddau byw i staff o'r cownter gwasanaeth. **CD**
- Rhaid gosod hysbysiadau wrth fynedfa'r safle neu'n agos ati ac yn y safle ei hun yn nodi bod camerâu cylch cyfyng ar waith. **CD**
- Rhaid i'r trwyddedai:

a) darparu hyfforddiant ar y system camerâu cylch cyfyng ac ar sut i gael at y lluniau os bydd yr heddlu neu'r swyddog awdurdodedig yn gofyn iddo wneud hynny, yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant sefydlu staff neu pan fydd y system yn cael ei newid, a

b) darparu hyfforddiant gloywi o bryd i'w gilydd i'w holl staff sy'n gweithio yn y safle hwn ar y broses gwyllo camerâu cylch cyfyng. Bydd cofnod ffurfiol o bob aelod o staff sy'n mynd am yr hyfforddiant hwn yn cael ei nodi yn eu cofnodion hyfforddi a chânt eu cyflwyno i'r Heddlu neu i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag sy'n ymarferol, wedi iddynt ofyn amdanynt. **CD**

## Goruchwyllo ar y Drws

- Rhaid i o leiaf [nodwch y nifer] g/oruchwylwr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) fod ar ddyletswydd ym mhob mynedfa i'r safle ac allanfa oddi yno bob amser tra'i fod yn gweithredu dan y drwydded hon. **CD a CV**
- Rhaid i o leiaf [nodwch y nifer] g/oruchwylwr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) fod ar ddyletswydd yn y safle bob amser tra'i fod ar agor i fusnes. **CD a CV**

- Rhaid i o leiaf [nodwch y nifer] g/oruchwyliwr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) fod ar ddyletswydd ym mhob mynedfa i'r safle ac allanfa oddi yno bob amser tra'i fod ar agor i fusnes. **CD a CV**
- Rhaid i [nodwch nifer] G/oruchwyliwr Drws Trwyddedig SIA fod ar ddyletswydd yn y safle yn ystod y cyfan o'r oriau a ganiateir **CD a CV**
- Ni chaniateir mynediad i'r safle i gwsmer nac iddo ddychwelyd iddo ar ôl [nodwch amser] oni bai eu bod wedi pasio trwy fwa archwilio metel ac, os yw'r bwa archwilio wedi'i actifadu neu yn ôl disgresiwn staff, yna gael eu harchwilio'n gorfforol. Bydd hyn yn cynnwys 'archwiliad trwy redeg dwylo dros ddillad y cwsmer' ac archwiliad llawn o'u bag. **CD a CV**
- Rhaid i bawb sy'n dod i mewn neu'n dychwelyd i'r safle gael eu harchwilio gan aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi gan y SIA a'i fonitro gan system camerâu cylch cyfyng y safle. **CD a CV**
- Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio'r tu allan i fynedfa'r safle, neu'n goruchwilio neu'n rheoli ciwiau, wisgo siacedi neu festiau melyn amlwg iawn. **CD a CV**
- Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod mannau allanol y safle yn cael eu monitro er mwyn sicrhau nad oes niwsans cyhoeddus ac na chaiff y briffordd ei rhwystro. **CD**

### Plant a Phobl Ifanc

- Yn y safle bydd y Trwyddedai yn cadw cofrestr 'Her 21 neu Her 25' o dudalennau wedi'u rhwymo ac ynnddi enwau'r bobl sydd wedi'u gwrthod. Rhaid cyflwyno'r gofrestr i'r heddlu neu i'r awdurdod trwyddedu ar unwaith ar eu cais. **CV**
- Bydd arwyddion a hysbysiadau amlwg yn hysbysebu Polisi Her 21 neu Her 25 yn cael eu harddangos yn dangos y gweithredir polisi o'r fath. **CV**
- Rhaid i drydydd parti gynnal profion ar systemau gwerthu nwyddau sydd â chyfyngiadau oed arnynt ar y safle o leiaf [nodwch amllder] y flwyddyn. **CV**
- Rhaid i drydydd parti gynnal profion ar brynu systemau gwerthu nwyddau sydd â chyfyngiadau oed arnynt o leiaf [nodwch amllder] y flwyddyn a rhaid rhoi'r canlyniadau i'r Awdurdod Trwyddedu ar eu cais. **CV**
- Ni chaniateir i'r trwyddedai roi ei logos na deunydd hyrwyddo arall ar nwyddau masnachol sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan blant. **CV**
- Rhaid i bob til arwain staff yn awtomatig i ofyn am brawf oedran wrth roi bet. **CV**
- Rhaid gweithredu cynllun prawf oedran Her 21 neu Her 25 yn y safle lle mai'r unig ffurfiau adnabod derbyniol yw cardiau adnabod ffotograffig cydnabyddedig, megis trwydded yrru, pasbort neu gerdyn prawf oedran sydd â'r hologram PASS. **CV**
- Bydd y trwyddedai'n sicrhau, trwy wiriadau ac ymyrraeth reolaidd, nad yw plant cwsmeriaid yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth y tu allan i'r safle. **CV**
- Bydd y trwyddedai yn sicrhau, trwy wiriadau ac ymyrraeth reolaidd, na fydd plant yn ymgynnull y tu allan i'r safle. **CV**
- Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau y caiff mannau allanol y safle eu monitro er mwyn sicrhau nad oes niwsans cyhoeddus ac na chaiff y briffordd ei rhwystro. **CD**

### Mynedfeydd a Drysau

- Bydd dyfais cloi fagnetig, y cyfeirir ati'n gyffredin fel Maglock, yn cael ei gosod a'i chynnal ar brif fynedfa / allanfa'r safle y bydd modd i staff ei gweithredu o gownter ariannu'r llawr gwaelod. **CD a CV**
- Bydd Pelydryn Is-goch wedi'i gysylltu â seinydd yn cael ei osod a'i gynnal wrth fynedfa'r safle er mwyn hysbysu staff pan fydd cwsmer yn dod i mewn i'r safle neu'n gadael. **CD a CV**

### Niferoedd Staffio

- Ni chaniateir cynllunio ymlaen llaw mai un aelod o staff yn unig fydd yn gweithio unrhyw adeg. **CD a CV**
- Ni chaniateir cynllunio ymlaen llaw mai un aelod o staff yn unig fydd yn gweithio ar ôl 20:00. Pe bai un aelod o staff yn unig yn y safle ar ôl yr amser hwn, rhaid i'r system cloi drysau fagnetig gael ei defnyddio'n gyson. **CD a CV**

- Bydd o leiaf ddau aelod o staff yn y safle ar ôl 10pm. **CD a CV**
- Bydd o leiaf ddau aelod o staff ar ddyletswydd trwy gydol y cyfnod y cynhelir gweithgareddau trwyddeddw ym y safle. **CD a CV**
- Bydd o leiaf [nodwch] aelod o staff yn bresennol bob amser pan fydd y safle ar agor. **CD a CV**

### **Cownteri Arianwyr a Llochesi Diogel**

- Rhaid i'r trwyddedai fod â chownter sgrin diogelwch polycarbonad uchder llawn neu un wedi'i lamineiddio â gwydr â thrwch o 11.5mm o leiaf ar lawr gwaelod y safle. **CD**
- Rhaid gosod sgrin ddiogelwch uchder llawn wrth y cownter ariannu. **CD**
- Bydd bariâu diogelwch uchder llawn sydd wedi'u gosod ar bellter digonol yn cael eu gosod wrth y cownter ariannu i atal person rhag ymestyn trwyddo **CD**
- Rhaid i'r trwyddedai osod Lloches Ddiogel [ychwanegwch leoliad y lloches ddiogel] sy'n cynnwys drws diogel ac ynddo dwll sbïo, Monitor Camerâu Cylch Cyfyng, Ffôn, system ddiogelu, botwm rheoli maglock a systemau eraill yr ystyria'r trwyddedai sy'n briodol. **CD**

### **Adnabod Troseddwyr neu Bersonau sy'n creu Traffferth**

- Rhaid i'r trwyddedai ddarparu Pecynnau Poer yn y safle a darparu hyfforddiant i'r staff ar ddefnyddio'r citiau hyn. **CD**
- Os bydd yr heddlu neu'r awdurdod trwyddedu, ar unrhyw adeg cyn agor y safle neu wedi hynny), yn rhoi enwau a/neu ffotograffau unigolion y mae'n dymuno iddynt gael eu gwahardd o'r safle, rhaid i'r trwyddedai wneud pob ymdrech resymol i weithredu'r gwaharddiad trwy hyfforddi'r staff. **CD**
- Bydd y Trwyddedai yn gweithredu polisi o wahardd cwsmer sy'n troseddu, yn creu anhrefn neu'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn y safle neu'r tu allan iddo. **CD**
- Bydd y trwyddedai yn gwrthod mynediad i gwsmeriaid yr ymddengys eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. **CD, CV**

### **Seddi**

- Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr holl seddi yn y safle naill ai wedi'u sicrhau i'r llawr neu'n rhy drwm iddynt gael eu codi **CD**
- Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod holl seddi'r peiriannau hapchwarae yn y safle yn rhy drwm iddynt gael eu codi **CD**

### **Larymau (Rhai'r Safle a rhai Personol)**

- Bydd pob aelod o staff yn cael larwm ffob personol y bydd gofyn i'r staff ei gadw arno ac a fydd yn actifadu'r larwm os bydd yr aelod o staff yn pwysu arno neu os yw'r aelod o staff hwnnw'n gorwedd yn llorweddol am gyfnod penodol o amser. **CD**
- Rhaid i'r trwyddedai osod a chynnal larwm tresmasu yn y safle. **CD**
- Rhaid i'r safle osod a chynnal botwm panig y tu ôl i'r cownter ariannu. **CD**
- Rhaid i'r safle osod a chynnal botwm panig y tu ôl i'r cownter ariannu fydd yn rhybuddio staff diogelwch y safle ar ôl ei wasgu. **CD**
- Rhaid gosod a chynnal larwm ymosod y tu ôl i'r cownter ariannu fyddai'n rhybuddio [enw'r gweithredwr], y staff diogelwch a'r heddlu. **CD**
- Rhaid gosod a chynnal larwm ymosod y tu ôl i'r cownter ariannu fyddai'n rhybuddio'r heddlu. **CD**

### **Toiledau**

- Bydd dyfais Maglock yn cael ei gosod a'i chynnal ar ddrws toiled cwsmeriaid fydd yn cael ei gweithredu gan aelod o staff o'r cownter ariannu. **CD a CV**
- Rhaid i'r Trwyddedai osod a chynnal system goleuadau uwchfioled yn nhoiled cwsmeriaid. **CD a CV**

- Bydd y trwyddedai yn sicrhau bod toiledau cwsmeriaid yn cael eu gwirio bob awr / (nodwch gyfnod arall) am lendid a thystiolaeth o gymryd cyffuriau. **CD a CV**

### Cyfyngiadau ar Fwyd a Diod

- Dim ond lluniaeth a brynir neu a gyflenwir yn y safle y gellir ei fwyta yn y safle. **CV**
- Darperir peiriant gwerthu lluniaeth poeth a chyfleusterau lluniaeth at ddefnydd cwsmeriaid a staff yn unig. **CV**

### Arwyddion, Deunydd Hyrwyddo a Hysbysiadau

- Rhaid i'r trwyddedai osod a chadw arwydd wrth fynedfa'r safle yn nodi na fydd y bobl a ganlyn yn cael mynediad i'r safle:
  - a) Unrhyw un dan 18 oed,
  - b) Unrhyw un sy'n ymddangos fel petai dan 21/25 oed ac yn methu profi eu bod dros 18 oed,
  - c) Dim ond lluniaeth a brynir neu a gyflenwir yn y safle y gellir ei fwyta yn y safle, \*
  - d) Unrhyw un sydd wedi'i wahardd o'r safle, a
  - e) Dylai unrhyw un sydd ag alcohol yn ei feddiant neu sy'n ymddangos ei fod dan ddylanwad alcohol neu sylweddau (a ellid geirio hyn yn well?) \*i'w ychwanegu os cynigir yr amod uchod yn unig. **CD a CV**
- Bydd y trwyddedai yn gosod ac yn cadw arwydd wrth y fynedfa sy'n nodi mai 'dim ond lluniaeth a brynir ar y safle gaiff ei yfed ar y safle'.
- Mae'r holl arwyddion/dogfennau cyhoeddus sy'n ymwneud â chyfyngiadau oedran, cyngor ar gamblo a gwybodaeth am gymorth gyda gamblo (e.e. GamCare neu wasanaeth cymorth tebyg) yn cael eu harddangos neu eu darparu yn y safle mewn Saesneg ysgrifenedig ac unrhyw iaith arall sy'n briodol i'r ardal a'r sylfaen cwsmeriaid. **FO CV**
- Bydd dogfennau amlwg GamCare yn cael eu harddangos yn y safle. **FO CV**
- Rhaid i'r trwyddedai sicrhau na fydd gamblo'n cael eu hyrwyddo na'i hysbysebu yn y safle i hil ethnig benodol, sef gamblo sydd wedi'i gynllunio ar gyfer denu'r gymuned leol i gamblo neu y bwriedir iddo wneud hynny. **CV**
- Rhaid arddangos arwyddion amlwg sy'n nodi'r oriau a ganiateir ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig fel eu bod yn weladwy cyn mynd i mewn i'r safle. **FO**

### Digwyddiadau Hyrwyddo i Ddenu

- Ni chaniateir i'r trwyddedai hyrwyddo dim fuasai'n denu, megis orig ddifyr, pryd y bydd arian y peiriannau hapchwarae yn gostwng. **FO a CV**

### Hyfforddiant i Staff

- Rhaid i'r trwyddedai:
  - a) ddarparu hyfforddiant ar y risgiau lleol penodol i'r amcanion trwyddedu a nodwyd ar gyfer y safleoedd hyn fel rhan o raglen hyfforddi sefydlu staff.
  - b) darparu hyfforddiant gloywi o bryd i'w gilydd i'w holl staff sy'n gweithio yn y safle hwn ar y risgiau lleol penodol i'r amcanion trwyddedu.
- Cofnodir yn ffurfiol ar gofnodion hyfforddi pob aelod o staff eu bod wedi bod am yr hyfforddiant hwn a chaiff y cofnodion hyn eu cyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n ymarferol, os gofynnir amdanynt. **CD, FO a CV**
- Bydd y Trwyddedai yn hyfforddi staff ar faterion penodol sy'n ymwneud â'r ardal leol a bydd yn cynnal hyfforddiant gloywi o bryd i'w gilydd. Rhaid cofnodi'n ffurfiol pan fydd staff wedi bod am yr hyfforddiant a chyflwyno'r cofnodion i'r heddlu neu i'r awdurdod trwyddedu ar gais. **CD, FO a CV**
- Rhaid i staff newydd a thymhorol fynd am hyfforddiant sefydlu. Rhaid i'r holl staff presennol fynd am hyfforddiant gloywi bob chwe mis. **CD, FO a CV**

## Cofnodi Digwyddiadau ac Ymweliadau

- Rhaid cadw cofnod digwyddiadau ar gyfer y safle a sicrhau ei fod ar gael i swyddog awdurdodedig y cyngor neu i'r Heddlu fydd yn cofnodi'r isod:
  - a) Pob trosedd y rhoddwyd gwybod i'r lleoliad amdani;
  - b) Cwynion a dderbynnir ynghylch trosedd ac anhrefn;
  - c) Achosion o anhrefn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol;
  - d) Diffygion yn system y camerâu cylch cyfyng; ac
  - e) Ymweliad gan awdurdod perthnasol neu wasanaeth brys.

## Bagiau ac Eiddo Cwsmeriaid

- Ni fydd cwsmeriaid yn cael gadael bagiau nac eiddo arall yn y safle. **CV**

## Digartrefedd ac Yfed ar y Stryd

- Bydd y trwyddedai yn cysylltu â'r hosteli / llochesi digartref lleol ac yn cynnig rhoi gwybodaeth am wasanaethau cymorth gyda phroblemau gamblo a sut y gall eu preswylwyr gadw draw o safleoedd [enw'r gweithredwr]. **CV**
- Rhaid i'r trwyddedai gymryd pob cam rhesymol i atal pobl rhag yfed alcohol ar y stryd union y tu allan i'r safle a gwahardd y rhai sy'n gwneud hynny o'r safle. **CD a CV**
- Rhaid i'r trwyddedai roi hysbysiad sydd i'w weld o'r tu allan i'r safle yn nodi na chaniateir i gwsmeriaid yfed alcohol y tu allan i'r safle ac y bydd y rhai sy'n gwneud hynny yn cael eu gwahardd o'r safle. **CD a CV**

## Adrodd i'r Heddlu, Protocolau ac Atal Troseddu

- Rhaid i'r trwyddedai ddatblygu protocol gyda'r heddlu ynghylch adrodd ar ddigwyddiadau a chytuno arno, gan gynnwys math a lefel y digwyddiad a'r dull cyfathrebu, fel bod modd i'r heddlu fonitro materion sy'n codi yn y safle neu mewn perthynas ag o. **CD**
- Cyn agor bydd y trwyddedai yn cwrdd â'r Swyddog Atal Troseddu er mwyn trafod mesurau ychwanegol i ostwng trosedd ac anhrefn. **CD**

## Peiriannau Codi Arian

- Ni fydd cyfleusterau codi arian yn y safle. **CD a CV**
- Bydd y peiriant codi arian wedi'i leoli fel bod y staff y tu ôl i'r ddesg ariannu yn medru gweld y peiriant a'r cwsmeriaid sy'n ei ddefnyddio yn ddirwystr. **CD a CV**
- Rhaid gosod arwyddion ar y peiriant codi arian neu yn union nesaf ato i rybuddio cwsmeriaid i orchuddio'r bysellbad wrth gofnodi eu rhif PIN. **CD**

## Peiriannau Hapchwarae a Therfynellau Betio Hunanwasanaeth

- Rhaid lleoli peiriannau gamblo yn y lleoliadau a bennir ar gynlluniau'r safle. **CD a CV**
- Rhaid lleoli peiriannau gamblo fel bod yr arianwyr yn gallu gweld y peiriannau a'r cwsmeriaid sy'n eu defnyddio yn ddirwystr o bob cownter. **CD a CV**
- Ni chaniateir gwagio peiriannau gamblo tra bod cwsmeriaid yn bresennol yn y safle a'r drysau heb eu cloi. **CD**
- Ni chaniateir gwagio terfynellau betio hunanwasanaeth tra bod cwsmeriaid yn bresennol yn y safle a'r drysau heb eu cloi. **CD**

- Ni chaniateir gwagio peiriannau gamblo na therfynellau betio hunanwasanaeth tra bod cwsmeriaid yn bresennol yn y safle a'r drysau heb eu cloi. **CD**
- Ni chaniateir gwagio peiriannau gamblo pan nad oes ond un aelod o staff yn y safle. **CD**
- Ni chaniateir gwagio terfynellau betio hunanwasanaeth pan nad oes ond un aelod o staff yn y safle. **CD**
- Ni chaniateir gwagio peiriannau gamblo a therfynellau betio hunanwasanaeth pan nad oes ond un aelod o staff yn y safle. **CD**
- [Nodwch y nifer] o derfynellau betio hunanwasanaeth a ganiateir yn y safle. **CV**
- Bydd y rhan o'r safle ar gyfer unrhyw un dros 18 oed sy'n cynnwys y peiriannau hapchwarae categori C wedi'i hamgáu â phartisiwn o'r llawr i'r nenfwd gydag un lle ar gyfer mynd allan a dod i mewn. **CV**
- Ni fydd sgriniau preifatrwydd, a adwaenir fel 'pod peiriant gemau' yn amgáu'r cwsmer i'r fath raddau a fyddai'n cyfyngu ar olwg perifferol y cwsmer o'r safle wrth chwarae'r peiriant naill ai wrth iddo sefyll neu eistedd a rhwystro aelod o staff rhag gallu gweld y person hwnnw. **CD a CV**
- Ni chaniateir darparu cyfleusterau gamblo eraill mewn man peiriant hapchwarae sydd wedi'i amgáu. Fel hyn, bydd modd i'r cwsmer chwarae'r peiriant a chymryd rhan mewn mathau eraill o gamblo. **CV**

### Lleoliadau Aml-lawr

- Caiff mynediad i [rhif llawr] (l)lawr [cyntaf] y safle ei reoli gan aelodau staff a bydd drws ar waelod y grisiau na all aelodau staff ei weithredu. Trwy hynny, rhoddir mynediad i'r rhai sydd wedi cael caniatâd staff yn unig. **CD**
- Bydd o leiaf un aelod o staff yn bresennol bob amser pan fydd y(r) [rhif llawr] (l)lawr [cyntaf] yn cael ei ddefnyddio gan gwsmeriaid. **CD a CV**
- Rhaid i'r trwyddedai osod a chynnal system intercom / ffôn mewnol fel bod modd i staff gyfathrebu â'i gilydd ar bob llawr o'r safle. **CD a CV**
- Rhaid i'r trwyddedai osod monitorau mewn mannau lle ceir cownter ariannu'r staff ar bob llawr fydd yn arddangos lluniau byw'r camerâu cylch cyfyng o'r tu mewn ac o'r tu allan i'r safle. **CD a CV**
- Rhaid gosod a chynnal larwm ymosod y tu ôl i gownteri ariannu'r llawr daear a'r llawr cyntaf a fyddai'n rhybuddio [enw'r gweithredwr], staff diogelwch a'r heddlu. **CD**
- Bydd dyfais cloi fagnetig (Maglock) yn cael ei gosod a'i chynnal ar ddrws toiled cwsmeriaid ar y(r) [rhif llawr] (l)lawr [cyntaf] ac a gaiff ei gweithredu gan aelod o staff o'r cownter ariannu ar y(r) [rhif llawr] (l)lawr [cyntaf] **CD a CV**

### Cynllun Betwatch

- Cyn gynted â phosibl, a beth bynnag cyn pen mis o roi'r drwydded hon, rhaid i'r safle ymuno â'r Cynllun Betwatch. **CD a CV**

### Dogfennau a Roddir i'r Awdurdod Trwyddedu

- Rhaid i'r trwyddedai roi i'r Awdurdod Trwyddedu ei lawlyfr cydymffurfio / gweithredu sy'n nodi holl bolisiau'r safle i fodloni'r gofynion rheoleiddiol dan Ddeddf Gamblo 2005 a rhaid iddo roi copi o ddiweddariad neu adolygiad cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gweithredu'r newid hwnnw. **CD, FO a CV**